

ADRAN 16

16. RHEOLAU GWEITHDREFNOL ARIANNOL

PWRPAS:

Mae dyletswydd foesol a chyfreithiol ar bob swyddog ac aelod o Gyngor Gwynedd i sicrhau y byddent yn gwneud defnydd cywir o'r cyllid cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdano. Mae'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau, a.y.b.) yn gosod fframwaith i sicrhau y bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau yn hyn o beth.

16.1 CYFLWYNIAD

- 16.1.1 Mae'r rheolau hyn yn rhan o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd ac yn gosod y fframwaith ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor. Maent yn berthnasol i bob Aelod a swyddog o'r Cyngor ac unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y Cyngor; fe all methiant i gydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol arwain at achos disgyblu.
- 16.1.2 Mae'r rheolau hyn i'w darllen a'u dehongli gyda rhannau eraill o Gyfansoddiad a Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a chyfrifir hwynt fel ychwanegiad atynt yn hytrach nag yn lle'r cyfryw reoliadau, a heb eu tansellio.
- 16.1.3 Ni effeithia'r rheolau hyn ar atebolrwydd cyfreithiol, trwy gyfraith statudol neu fel arall, unrhyw drydydd parti tuag at y Cyngor.
- 16.1.4 Heblaw am reoliadau 16.2.5 i 16.2.11 sy'n cyfeirio yn benodol at y person a benodwyd fel Pennaeth Cyllid y Cyngor, lle mae'r rheolau hyn yn cyfeirio at y "Pennaeth Cyllid" golyga hyn y Pennaeth Cyllid neu swyddog aral a enwebyd fel cynrychiolydd y Pennaeth Cyllid. Lle mae'r rheolau hyn yn cyfeirio at "Brif Swyddog" golyga hyn "y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol neu Bennaeth Adran, neu swyddog arall o'r Adran berthnasol wedi'i enwebu fel cynrychiolydd y Pennaeth Adran".
- 16.1.5 Pan fo'r rheolau hyn yn cyfeirio at "flwyddyn ariannol", os na nodir yn wahanol maent yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1, Ebrill mewn unrhyw flwyddyn a 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

16.2 SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

PWRPAS:

Mae dyletswydd ar bob aelod o staff ac ar aelodau'r Cyngor i gynnal y safonau uchaf o briodoldeb pan fyddent yn ymwneud â materion ariannol. Gellir hyrwyddo hyn trwy sicrhau y bydd pawb yn deall y safonau y maent yn ymgyrraedd atynt a'r rheolaethau sy'n sicrhau digoni'r safonau hyn.

Dyletswyddau'r Cyngor Llawn

- 16.2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd tuag at y rhai sy'n talu'r Dreth Cyngor o ran penderfyniadau ariannol a'u canlyniadau. Mae'r Cyngor Llawn yn

gyfrifol am gymeradwyo amcangyfrifon gwariant a'r Gyllideb sy'n sail i weithrediad y Cabinet, gan roi ystyriaeth i sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y reserfau ariannol o dan Adran 25, Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r broses o bennu'r gyllideb yn cynnwys cymeradwyo Dangosyddion Darbodus fel sy'n ofynnol gan Gôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Mae hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro cydymffurfriad â rheolaeth gyffredinol y Cyngor.

Dyletswyddau'r Cabinet

- 16.2.2 Mae'r Cabinet yn gyfrifol am gyflawni Swyddogaethau Gweithredol a blaenoriaethu gwariant yn unol â'r Gyllideb. Y Cabinet sy'n gyfrifol am drefnu, goruchwyllo a rheoli holl arian a chyfrifon y Cyngor a'i holl wasanaethau, a chyd-gysylltu'r trefniadau ariannol a chyfrifo.

Dyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

- 16.2.3 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gweithredu'r gofynion sydd arno yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae hyn yn cynnwys monitro ac adolygu priodoldeb cyllidebau, strategaeth ariannol, cyfrifon a rheolaeth ariannol y Cyngor a'i holl wasanaethau drwy adolygu gweithdrefnau ariannol, hybu rheoli risg, llywodraeth dda a rheolaeth fewnol a datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll.

Dyletswyddau'r Pwyllgorau Craffu

- 16.2.4 Dyletswydd y Pwyllgorau Craffu fydd monitro'r Cyngor a'i holl wasanaethau o ran adolygu penderfyniadau'r Cabinet ac adolygu polisïau perthnasol.

Dyletswyddau'r Prif Swyddog Cyllid

- 16.2.5 Y Pennaeth Cyllid yw'r Swyddog a chyfrifoldeb tros weinyddu materion ariannol yn ôl gofynion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972; ac mi fydd yn paratoi ac yn diwygio o bryd i'w gilydd ganllawiau manwl fel bo'r angen.
- 16.2.6 Yn ogystal â'r cyfrifoldeb dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Pennaeth Cyllid ddyletswyddau statudol mewn perthynas â gweinyddiaeth ariannol a stiwardiaeth y Cyngor. Ni ellir diystyru'r cyfrifoldeb statudol hwn. Mae'r dyletswyddau statudol ychwanegol hyn yn deillio o'r canlynol:
- (a) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
 - (b) Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1989
 - (c) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
 - (ch) Deddf Llywodraeth Leol 2003

- 16.2.7 Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am:
- (a) weinyddiad priodol materion ariannol y Cyngor;
 - (b) gosod safonau rheoli ariannol a monitro cydsyniad â hwynt;
 - (c) adrodd ar gryfder amcangyfrifon ac ar ddigonolrwydd y cronfeydd ariannol bwriedig a gosodedig er mwyn llunio cyfrifiadau cyllidebol.
- 16.2.8 Yn unol ag Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Cyngor Llawn, i'r Cabinet ac i'r archwiliwr allanol os yw o'r farn bod y Cyngor, pwyllgor o'r Cyngor, cydbwyllgor â chynrychiolaeth y Cyngor arno, neu un o'i swyddogion:
- (a) wedi gwneud, neu ar fin gwneud, penderfyniad sy'n arwain at wariant anghyfreithlon;
 - (b) wedi gwneud, neu ar fin gwneud, rhywbeth anghyfreithlon sydd wedi neu a fyddai'n creu colled neu ddiffygiad i'r Cyngor;
 - (c) ar fin gwneud cofnod anghyfreithlon yng nghyfrifon y Cyngor.
- 16.2.9 Wrth baratoi adroddiad o'r fath yn ôl gofynion Adran 114 Deddf 1988, bydd y Pennaeth Cyllid:
- (a) yn ymgynghori gyda'r Swyddog Monitro ynghylch anghyfreithlondeb;
 - (b) yn ymgynghori gyda'r Prif Weithredwr ar y mater;
 - (c) pe cyfyd unrhyw amheuaeth neu anghytundeb, yn gofyn i'r Swyddog Monitro gael barn cwnsler.
- 16.2.10 Dylid anfon unrhyw adroddiad o'r fath at bob aelod o'r Cyngor a'r archwiliwr allanol. O gael adroddiad, mae'n rhaid i'r Cyngor (neu'r Cabinet mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol gynnal cyfarfod o fewn 21 diwrnod i drafod y mater. Ni ddylid parhau â'r ymddygiad sy'n sail i'r adroddiad hyd nes bydd y Cyngor llawn wedi gweld yr adroddiad.
- 16.2.11 Hefyd yn unol ag Adran 114 o Ddeddf 1988:
- (a) bydd y Pennaeth Cyllid yn enwebu aelod o staff â chymhwyster briodol i fod yn ddirprwy iddo pe byddai'n methu cyflawni'r dyletswyddau dan Adran 114 ei hun;
 - (b) bydd yr awdurdod yn darparu staff digonol, swyddfeydd ac adnoddau eraill, gan gynnwys cyngor cyfreithiol os bydd angen, er mwyn i'r Pennaeth Cyllid gyflawni'r dyletswyddau dan Adran 114 ac Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol.

Dyletswyddau Prif Swyddogion

- 16.2.12 Ni chyflwynir unrhyw adroddiad i'r Cabinet (nac i'r Cyngor llawn, Pwyllgor Cyflogaeth, neu bwyllgor arall gyda phwerau gweithredol) heb yn gyntaf ei gyflwyno i'r Pennaeth Cyllid am ei sylwadau ar briodoldeb ariannol neu oblygiadau ariannol yr argymhellion. Ni chaiff swyddogion nac aelodau roddi gwybodaeth ariannol i gyrrff ac unigolion allanol heb yn gyntaf ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid neu reolwr cyllid perthnasol er mwyn sicrhau cywirdeb. Rhaid ymgynghori'n bersonol gyda'r Pennaeth Cyllid pan fo'r rheolwr cyllid perthnasol yn tybio fod y wybodaeth yn sensitif o safbwynt masnachol.
- 16.2.13 Bydd pob Prif Swyddog yn sicrhau y bydd ei adran yn defnyddio egwyddorion pendant ynglŷn â gwirio mewnl i fodloni y Pennaeth Cyllid. Yn benodol :-
- (a) caiff y dyletswyddau o ddarparu gwybodaeth am symiau sy'n ddyledus i neu gan y Cyngor ac o gyfrifo, gwirio a chofnodi'r symiau hyn eu gwahanu cymaint ag y bo modd oddi wrth y ddyletswydd o'u casglu neu eu gwario;
 - (b) ni fydd y swyddogion sydd â'r ddyletswydd o archwilio a gwirio cyfrifon trafodion ariannol yn cymryd rhan eu hunain mewn unrhyw un o'r trafodion hynny.
- 16.2.14 Gosodir rheolau manwl ynglŷn ag ysgolion sy'n cael cyllidebau wedi'u datganoli a'r dull y maent yn rheoli cyllid trwy Reoliadau Ariannol gwahanol. Fe ystyrir y rheoliadau hynny fel ychwanegiad at y rheolau Gweithdrefn Ariannol hyn, yn hytrach nag yn eu lle.
- 16.2.15 Bydd y Pennaeth Cyllid yn argymhell pa newidiadau i'r rheolau Gweithdrefn Ariannol y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol a dymunol er gweinyddu arian y Cyngor yn gywir.
- 16.2.16 Pan fydd un aelod o staff yn trosglwyddo arian swyddogol i aelod arall rhaid nodi hynny yng nghofnodion y gwasanaethau perthynol gyda llofnodion y swyddog sy'n talu a'r swyddog sy'n derbyn.
- 16.2.17 Bydd yn ddyletswydd ar y Prif Swyddog perthnasol i roi gwybod i'r Pennaeth Cyllid, ddim llai na pythefnos cyn y digwyddiad, am agor neu gau unrhyw sefydliad neu weithgaredd sy'n gofyn am drefniadau cyfrifyddol er mwyn i'r Pennaeth Cyllid wneud y trefniadau ariannol sy'n briodol yn ei olwg ef.
- 16.2.18 Rhaid i'r Prif Swyddog fodloni'r Pennaeth Cyllid fod pob cynnig sy'n creu gwariant a gyflwynir i unrhyw bwyllgor yn gyfreithlon ac y gellir ateb y costau o fewn dyraniadau cyllideb bresennol y gwasanaeth berthnasol neu fod yr adroddiad yn cynnig sut y dylid cyllido'r gwariant.
- 16.2.19 Bydd rhaid chwilio am sylwadau ysgrifenedig y Pennaeth Cyllid ar gyfer pob adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet, neu Aelod Cabinet dan drefniadau dirprwyedig.

16.3 YMDRIN Â BALANSAU DIWEDD Y FLWYDDYN

PWRPAS:

Mae'r rheolau isod yn cyfeirio at y trefniadau ar gyfer trosglwyddo adnoddau rhwng blynyddoedd cyfrifo, h.y. cario ymlaen.

- 16.3.1 Dygir ymlaen y gwahaniaeth rhwng gwariant gwirioneddol a'r hyn a ddarparwyd yn y gyllideb, boed yn ddiffyg neu'n ormodedd, gan bob adran o un flwyddyn ariannol i'r nesaf yn unol â'r cynllun isod:
- (a) Os trosglwyddir diffyg i'r flwyddyn ganlynol, gall y Prif Swyddog perthnasol wneud cais i'r Cabinet i ddileu elfen o'r diffyg sydd y tu hwnt i'w dylanwad, yn amodol ar gytundeb y Tîm Rheoli Corfforaethol.
 - (b) Os defnyddir y mecanwaith a ddisgrifir yn rhan (a) uchod, bydd rhagdybiaeth o gario ymlaen swm yn cyfateb i 0.4% o'r gyllideb gros neu £50,000 pa bynnag un sydd isaf.
 - (c) Cyfyngir ar y tanwariant y gellir ei gario ymlaen mewn unrhyw flwyddyn unigol i £100,000 ar gyfer pob adran.
- ch) Bydd gan y Cabinet yr hawl i eithrio cymalau (a) i (c) uchod.
- 16.3.2 Ni chaiff unrhyw wasanaeth na swyddog gynllunio i wario mwy nag a awdurdodwyd yn y gyllideb refeniw flynyddol, ynghyd ag unrhyw ormodedd (neu llai unrhyw ddiffyg) a ddygwyd ymlaen.
- 16.3.3 Bydd y Prif Swyddog perthnasol yn penderfynu pa ddefnydd a wneir o falansau a gariwyd ymlaen, yn unol ag unrhyw arweiniad gan y Cabinet, y Prif Weithredwr neu'r Pennaeth Cyllid.
- 16.3.4 Bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Cabinet ar y tanwariant/gorwariant sydd yn berthnasol i bob adran.
- 16.3.5 Os digwydd i adran gronni diffyg gall y Pennaeth Cyllid, wedi ymgynghori â'r Prif Weithredwr, osod cyfyngiadau ar wariant a throsglwyddiadau'r adran hwnnw yn ôl yr angen er mwyn lleihau'r diffyg.

16.4 POLISÏAU CYFRIFO

PWRPAS:

Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid yw paratoi cyfrifon yr awdurdod, yn unol ag arferion priodol, ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn gorffen ar 31, Mawrth.

- 16.4.1 Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid yw dewis polisïau cyfrifo a sicrhau eu bod yn bolisïau cyfreithlon ac y defnyddir hwynt yn gyson. Bydd pob cofnod o ddulliau gweithredu ariannol y Cyngor a'i swyddogion felly mewn dull a gymeradwyir gan y Pennaeth Cyllid.

16.4.2 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid:

- (a) drefnu crynhoi'r holl gyfrifon a chofnodion ariannol dan ei reolaeth;
- (b) sicrhau bod y datganiad cyfrifon blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o Ymarfer Cydnabyddedig (CIPFA/LASAAC);
- (c) arwyddo a dyddio'r datganiad cyfrifon, gan nodi ei fod yn adlewyrchu sefyllfa ariannol y Cyngor yn deg ar ddyddiad y cyfrifo ac incwm a gwariant y Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar 31, Mawrth.
- ch) gwneud trefniadau priodol ar gyfer archwiliad cyfrifon y Cyngor yn unol â'r Rheoliadau Archwilio a Chyfrifo;
- (d) baratoi a chyhoeddi cyfrifon y Cyngor ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â'r amserlen statudol a gofyniad y Cyngor i gymeradwyo'r datganiad cyfrifon cyn y dyddiad penodedig.

16.4.3 Cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol erbyn 30, Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

16.5 **COFNODION A DATGANIADAU ARIANNOL A'R DATGANIAD CYFRIFON BLYNYDDOL**

PWRPAS:

Mae cyfrifoldeb statudol ar yr awdurdod i baratoi'r cyfrifon er mwyn rhoi darlun teg o weithrediadau'r awdurdod yn ystod y flwyddyn. Cyfrifoldeb y Cyngor llawn yw cymeradwyo datganiad cyfrifon blynyddol statudol.

- 16.5.1 Y Rheolwr Cyllid perthnasol sydd yn gyfrifol am gadw'r prif gofnodion ariannol i holl wasanaethau'r Cyngor a byddent yn goruchwyllo a rheoli'r holl systemau a chofnodion ariannol.
- 16.5.2 Mae'r Rheolwr Cyllid perthnasol yn atebol i'r Pennaeth Cyllid dros sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o systemau a chofnodion.
- 16.5.3 Bydd y Pennaeth Cyllid yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod Cofnodion a Datganiadau Ariannol y Cyngor yn cydymffurfio ag arferion cyfrifeg cywir (statudol ac anstatudol) sy'n berthnasol i'r Cyngor.
- 16.5.4 Bydd y Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am sicrhau y dyrennir costau gwasanaethau canolog i gyfrifon a gwasanaethau'r Cyngor yn deg ac yn gywir yn unol â Chôt Ymarfer CIPFA ar gyfer Adrodd ar Wasanaethau.

CYNLLUNIO ARIANNOL

16.6 CYLLIDEBAU

Ffurf a Pharatoad y Gyllideb

PWRPAS:

Bydd ffurf y gyllideb yn penderfynu i ba raddau y defnyddir rheolaeth a threfn ariannol.

- 16.6.1 Datganolir y gyllideb referniw i reolwr gwasanaeth i fanylder sy'n caniatáu cydymffurfiaeth â Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Adrodd ar Wasanaethau.
- 16.6.2 Y Gyllideb Refeniw fydd uchafswm yr hawl gwario ar unrhyw wasanaeth neu swyddog.
- 16.6.3 Datganolir y gyllideb referniw i bob canolfan gost, ac ymhellach hyd at lefel dadansoddi goddrychol fel y gwelo'r Pennaeth Cyllid yn briodol.
- 16.6.4 Bydd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth ar gychwyn y cylch cynllunio i'r canllawiau y dylid eu mabwysiadu gan y rheolwyr gwasanaeth wrth baratoi eu cynlluniau gwasanaeth a chanlyniadau referniw y cynlluniau hynny.
- 16.6.5 Y Pennaeth Cyllid fydd yn gosod ffurf fanwl cynnwys yr amcangyfrifon referniw.
- 16.6.6 Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, wedi ymgynghori â'r Tîm Rheoli Corfforaethol, yn trefnu bod y Strategaeth Ariannol (gan gynnwys y gyllideb referniw) yn cael ei pharatoi a'i chyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr/ Chwefror.
- 16.6.7 Bydd y Cabinet, wedi ystyried cyllidebau arfaethedig pob gwasanaeth, yn gwneud argymhellion i'r Cyngor, er penderfynu ddim hwyrach na 11, Mawrth mewn unrhyw flwyddyn ar y materion canlynol:
 - (a) lefel gwariant referniw yn y flwyddyn ariannol i ddod;
 - (b) dosbarthiad gwariant referniw rhwng adrannau;
 - (c) lefel balansau y dylid eu cadw;
 - (ch) y Dreth Cyngor i'w gosod yn y flwyddyn ariannol ddilynol;
 - (d) lefel darpariaeth wrth gefn yn y Gyllideb Refeniw ar gyfer digwyddiadau annisgwyl neu ddigwyddiadau a ddisgwylir ond na ellir amcanu eu maint.
- 16.6.8 Os bydd adnoddau yn cael eu rhyddhau o'r rhaglen gyfalaf neu os derbynnir grant allanol ar gyfer cynllun newydd yn ystod y flwyddyn, caiff y Prif Swyddog perthnasol gymeradwyo defnydd o unrhyw adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw gynlluniau y dylid eu hychwanegu at y

rhaglen gyfalaf o ganlyniad, yn amodol ar gytundeb y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol . Bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd ar yr ychwanegiadau i'r Cabinet mewn adolygiad chwarterol dilynol.

Monitro a Rheoli'r Gyllideb

PWRPAS:

Wedi derbyn cymeradwyaeth y Cyngor Llawn, mae rheolaeth dros y gyllideb yn gofalu bod adnoddau wedi'u clustnodi at eu dibenion bwriadedig a bod cofnod cywir ohonynt. Fel arfer bydd y gyllideb yn dangos incwm a gwariant arfaethedig ar gyfer maes gwasanaeth neu ganolfan gost. Fodd bynnag, gellir defnyddio rheolaeth fwy manwl ar y gyllideb os yw cynllun dirprwyo'r Prif Swyddogion yn mynnu hynny.

- 16.6.9 Rhoddir hawl gwario i Brif Swyddogion a Rheolwyr Cyllidebau yn unol ag amcangyfrifon cymeradwy'r Cyngor fel y'i diwygiwyd gan unrhyw drosglwyddiad a wnaed dan Reol Gweithdrefn Ariannol 16.3, neu unrhyw amcangyfrifon atodol a gymeradwywyd gan y Cabinet neu'r Cyngor.
- 16.6.10 Gwneir unrhyw drosglwyddiadau yn unol â Rheol Gweithdrefn Ariannol 16.7.
- 16.6.11 Bydd hawl gan y Cabinet yn unig i gymeradwyo amcangyfrifon atodol fydd yn cymeradwyo gwariant o falansau'r Cyngor na ddarparwyd ar ei gyfer yn y Gyllideb Refeniw, yn ddarostyngedig i uchafswm blynyddol o 20% o'r balansau cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, a hynny dim ond ar ôl ystyried adroddiad ar y mater. Rhaid cyfeirio unrhyw amcangyfrif atodol sydd uwchlaw'r uchafswm at y Cyngor i'w benderfynu.
- 16.6.12 Mewn achosion o frys lle nad yw'r Cabinet yn cyfarfod mewn pryd i weithredu mewn argyfwng, bydd hawl gan y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau, i ymarfer hawliau'r Cabinet fel a nodir uchod. Bydd rhaid i'r Prif Weithredwr adrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Cabinet pryd gweithredir o dan y pwerau yma.
- 16.6.13 Bydd y Prif Swyddogion yn gofalu bod pob incwm a gwariant wedi'i gofnodi a'i gyfeirio'n briodol yn erbyn y pennawd cyllideb cywir. Ni ddylid byth ddynodi côd ar gyfer incwm neu wariant i bennawd cyllideb heblaw'r pennawd priodol.
- 16.6.14 Bydd y Pennaeth Cyllid yn sefydlu fframwaith briodol o reolaeth a threfn gyllidebol i sicrhau:
- (a) bod y gyllideb wedi ei rheoli o fewn terfynau cyllideb blynyddol;
 - (b) bod pob Prif Swyddog yn derbyn gwybodaeth amserol, berthnasol a chywir ar dderbyniadau a thaliadau ar bob cyllideb sydd ddigon manwl i alluogi rheolwyr i gyflawni eu dyletswyddau cyllidebol;
 - (c) bod gwariant wedi'i ymrwymo yn erbyn pennawd cyllideb

cymeradwy yn unig;

- (ch) bod pob swyddog sydd a chyfrifoldeb dros ymrwymo gwariant yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol ac â'r rheolau gweithdrefn ariannol hyn;
 - (d) bod pob canolfan gost reolwr unigol wedi'i enwi ac a bennwyd gan y Prif Swyddog perthnasol. Fel egwyddor cyffredinol, dylid neilltuo cyfrifoldeb cyllidebol hyd ag y mae modd gyda'r broses benderfynu sy'n ymrwymo gwariant;
 - dd) bod rheolwyr cyllidebau'n ymchwilio ac yn adrodd yn rheolaidd ar unrhyw amrywiant sylweddol o'r cyllidebau cymeradwy.
- 16.6.15 Rhaid i'r Prif Swyddogion, wedi ymgynghori gyda'r Rheolwr Cyllid perthnasol sicrhau bod gwariant refeniw a chyfalaf ill dau o fewn terfyn cyllideb yr adran yn gyfan gwbl, ac nad oes gorwariant ar bennau cyllideb unigol, trwy fonitro'r gyllideb a chymryd y camau priodol i gywiro lle bo gwahaniaethau sylweddol i'w gweld o'r gyllideb gydnabyddedig. Rhaid i'r Prif Swyddogion ymgynghori gyda'r Rheolwr Cyllid perthnasol ynglŷn â'r systemau a'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau rheolaeth.
- 16.6.16 Rhaid i'r Prif Swyddogion sicrhau bod rheolwr unigol wedi'i enwi ar gyfer pob canolfan gôst/pennawd cyllideb a bennwyd gan y Prif Swyddog perthnasol, a fydd yn gyfrifol am fonitro ac ymchwilio unrhyw amrywiant yn erbyn y gyllideb ac am dynnu sylw'r Prif Swyddogion a'r swyddog gweinyddu/cyllid atynt.
- 16.6.17 Rhaid i'r Rheolwr Cyllid perthnasol sicrhau bod gwybodaeth amserol ynglŷn â derbyniadau a thaliadau ar gael i bob Prif Swyddog, a bod yr wybodaeth hono yn ddigon manwl i alluogi rheolwyr i gyflawni eu dyletswyddau monitro.
- 16.6.18 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid gadw golwg ar effeithlonrwydd y drefn o reoli'r gyllideb o fewn pob gwasanaeth.
- 16.6.19 Rhaid i'r Prif Swyddogion gymryd y camau angenrheidiol i osgoi mynd dros eu dyraniad cyllidebol, a sicrhau bod y rheolwyr cyllideb yn deall eu cyfrifoldebau ariannol. Mewn perthynas â hyn, rhaid iddynt hefyd sicrhau bod lefelau gwasanaeth wedi'u monitro mewn cysylltiad â'r gyllideb ac y cymerir y camau angenrheidiol i unioni allbynnau gwasanaeth gyda'r gyllideb.
- 16.6.20 Rhaid i'r Prif Swyddogion adrodd yn ddiymdroi i'r Pennaeth Cyllid am amrywiannau cyllidebol amcanol a chyflwyno cynllun gweithredu i gysoni gwariant â'r gyllideb, naill ai trwy gymryd camau i gywiro'r sefyllfa neu, os na ellir gwneud hynny, trwy chwilio am arbedion cydadferol mewn rhannau eraill o'u cyllideb.
- 16.6.21 Pan fo Prif Swyddog yn methu cadw gwariant ac adnoddau o fewn cyllidebau cydnabyddedig sy'n bodoli tan ei reolaeth/rheolaeth, rhaid i'r Pennaeth Cyllid adrodd am hyn wrth y Tîm Rheoli Corfforaethol, a fydd

yn adolygu cynllun gweithredu mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor.

- 16.6.22 Yn dilyn ystyraieth y mater gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, ble bydd Prif Swyddog yn methu cysoni gwariant ac adnoddau o fewn cyllidebau cydnabyddedig sy'n bodoli tan ei reolaeth ac nad oes adnoddau o fewn cyllideb y Cyngor ar gyfer y gwariant, rhaid i'r Prif Swyddog adrodd i'r Cabinet neu'r Cyngor i ofyn am ganiatad i ddefnyddio amcangyfrifon atodol, fel a nodwyd yn Rheol Gweithdrefn Ariannol 16.6.11.
- 16.6.23 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid adrodd yn rheolaidd i'r Cabinet am sefyllfa gyffredinol y Cyngor. Disgwylir i'r Pennaeth Cyllid hefyd adrodd yn briodol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, fel bod modd i'r Pwyllgor hwnnw dderbyn sicrwydd fod y risgiau sy'n ymwneud â gwariant refeniw'r Cyngor yn derbyn sylw priodol, yn arbennig lle mae meysydd o orwariant neu tanwariant arwyddocaol.
- 16.6.24 Ni chaiff unrhyw beth yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol rwystro gwariant sy'n angenrheidiol i ateb unrhyw anghenion disymwth a ddaw o ganlyniad i argyfwng, gan gynnwys unrhyw wariant tan Adran 138 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid adrodd am unrhyw wariant o'r fath i'r Cabinet.

Rhaglenni Cyfalaf

PWRPAS:

Mae gwariant cyfalaf yn cynnwys cael neu ychwanegu at asedau sefydlog o werth tymor hi, megis tir, adeiladau, peiriannau, offer neu gerbydau trymion. Bydd gwariant cyfalaf yn rhan o strategaeth fuddsoddi a dylid rhoi blaenoriaeth fanwl iddo er mwyn cael y budd gorau o adnoddau.

- 16.6.25 Cedwir y Gyllideb Gyfalaf ar ffurf rhaglen dreigl tair blynedd.
- 16.6.26 Fel rhan o'r cylch cyllidebau, bydd y Cabinet yn ystyried y lefel debygol o adnoddau a fydd ar gael ar gyfer cynlluniau cyfalaf ym mhob un o'r tair blynedd, wedi ystyried pa mor fforddiadwy a chynaliadwy fyddent yn unol â darpariaethau'r Côt Darbodus ac, wedi penderfynu ar raglen y Flwyddyn Gychwynnol, bydd yn rhyddhau arweiniad ar y terfynau ariannol i'w hadfer ar gyfer paratoi rhaglenni'r ddwy flynedd ddilynol.
- 16.6.27 Bydd y Cabinet yn cyflwyno argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â'r dyraniad adnoddau cyfalaf i gynlluniau.
- 16.6.28 Bydd y Cyngor, yng nghyfarfod mis Chwefror/Mawrth, yn penderfynu ar y rhaglen gychwynnol ac ymrwmiadau awdurdodedig ar gyfer yr ail a'r trydydd blwyddyn yng ngoleuni'r terfynau benthg darbodus a ddyrennir. Mewn achos lle dyrennir adnoddau at ddibenion cyffredinol yn hytrach na chynlluniau penodol, bydd hawl gan y Cabinet i rannu'r adnoddau ymysg cynlluniau penodol.

- 16.6.29 Bydd pob Prif Swyddog yn cyflwyno proffiliau gwariant ar gyfer pob cynllun unigol.
- 16.6.30 Bydd cynnwys cynllun yn y Rhaglen Gyfalaf yn darparu'r caniatad angenrheidiol i'r cynllun fynd yn ei flaen.
- 16.6.31 (a) Bydd pob Prif Swyddog yn cyflwyno gwybodaeth rheolaidd i'r Pennaeth Cyllid yn unol â chanllawiau a lunnir ganddo yn amlinellu'r gwariant cyfalaf gwirioneddol a ragwelir yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd, a bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd yn chwarterol i'r Cabinet ar y sefyllfa, a hefyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel yn briodol, er mwyn i'r Pwyllgor hwnnw dderbyn sicrwydd fod y risgiau sy'n ymwneud â gwariant ar y cynlluniau cyfalaf yn derbyn sylw priodol.
- (b) Gellir rhoddi awdurdod hefyd i ychwanegu cynlluniau at y rhaglen gyfalaf ble mae angen cynnwys y cyfryw gynllun er mwyn gwarchod asedau ariannol neu ffisegol y Cyngor, neu pan gyfyd cyfle eithriadol, ble mae'r cyfryw gymeradwyaeth yn gyson â'r drefn a amlinellir yn Rheol 16.6.8 uchod.
- (c) Yn yr amgylchiadau a nodir yng nghymal (b) uchod, caiff y Cabinet hefyd awdurdodi ymrwymadau ar gyfer yr ail a'r trydydd blwyddn o'r cynllun cyfalaf.
- 16.6.32 Rhoddir cymeradwyaeth y Cyngor i gynnwys cynllun cyfalaf yn y rhaglen ar y sail y bydd y gwasanaeth priodol yn cwrdd ag unrhyw gostau refeniw ychwanegol, heblaw costau cyllido cyfalaf oddi mewn i'r cyllidebau refeniw presennol, oni bai fod y Cyngor wedi cymeradwyo y cyfryw gostau refeniw penodol ychwanegol.
- 16.6.33 Fe gwrddir ag unrhyw ddiffyg cyllido ar gyfer cynllun a gynhwyswyd yn y rhaglen gyfalaf drwy drosglwyddiad o gyllideb refeniw yr adran berthnasol, ond os na all adran gwrdd â'r fath ymrwymiad, dylid cyflwyno adroddiad llawn i'r Cabinet ar y rhesymau am y gorwariant.
- 16.6.34 Bydd y Cabinet yn gweithredu fel y bo'n briodol a gall gymeradwyo cyllid atodol mewn sefyllfaoedd lle bo hynny'n anorfod o fewn yr uchafswm blynyddol a ddangosir yn Rheol Gweithdrefn Ariannol 16.6.11, a hynny ar ôl ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog ar y mater. Rhaid cyfeirio unrhyw gais am gyllid atodol sydd uwchlaw'r uchafswm neu unrhyw newid i'r uchafswm cymeradwy at y Cyngor i'w benderfynu.
- 16.6.35 Mewn achosion lle trosglwyddir arian o'r gyllideb refeniw i'r gyllideb gyfalaf, bydd gan Prif Swyddog yr hawl i gynnwys cynlluniau o'r newydd yn y rhaglen gyfalaf mewn achosion lle gwneir trosglwyddiad yn unol â darpariaethau Rheol Ariannol 16.7, yn amodol ar y cyfyngiadau a geir yn y rheol ariannol hwnnw.
- 16.6.36 Bydd y Pennaeth Cyllid yn monitro derbyniadau cyfalaf a bydd yn darparu gwybodaeth monitro, mewn cymhariaeth â'r dybiaeth a wnaed yn rhaglen gyfalaf gydnabyddedig y Cyngor ar gyfer cynhyrchu derbyniadau cyfalaf, i'w gynnwys yn yr adroddiadau monitro cyfalaf a gyflwynir i'r

Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

16.6.37 Bydd gan y Prif Swyddog hawl i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf sydd o fewn rheolaeth yr adran lle bo gwerth y defnydd hwnnw hyd at £50,000 yn unol â'r rheolau ynglŷn â throsglwyddiadau yn Rhan 3. Bydd angen cymeradwyaeth Cabinet ar gyfer defnydd o'r fath lle bo'r swm dros £50,000.

16.6.38 Ni fydd Rheolau 16.6.36 a 16.6.37 yn berthnasol i gerbydau'r Cyngor, ar yr amod fod y cerbydau i'w gwaredu yn cael eu disodli gan gerbyd arall sydd i'w brynu i'r un perwyl.

16.7 CYNLLUN TROSGLWYDDO RHWNG PENAWDAU

PWRPAS:

Diben y cynllun trosglwyddo rhwng penawdau yw galluogi'r Cabinet, aelodau a swyddogion i drin cyllidebau gyda rhywfaint o hyblygrwydd o fewn y fframwaith polisi cyffredinol a osodir gan y Cyngor Llawn ac felly wneud y defnydd gorau o adnoddau.

16.7.1 Gellir caniatáu trosglwyddiadau rhwng penawdau cyn belled:

- (a) nad yw'r gwariant arfaethedig yn groes i bolisi'r Cyngor;
- (b) na fydd cynnydd yn y baich referniw ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

Cyllideb Referniw

16.7.2 (a) Gellir caniatáu trosglwyddiadau rhwng penawdau yng nghyllideb adran, un ai am flwyddyn neu'n barhaol, o Gyllidebau Referniw yn unol â'r drefn a welir yn y tabl isod.

Swm cronnus am y flwyddyn.	Caniatad Trosglwyddo
Hyd at £100,000	Prif Swyddog
£100,000 - £200,000	Prif Swyddog mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, y Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.
£200,000 neu fwy	Y Cabinet.

Nid yw'r drefn uchod yn caniatáu trosglwyddo arian allan o arian twf a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol na'r un flaenorol heb gymeradwyaeth y Cabinet. Bydd y Prif Swyddogion yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Cyllid perthnasol am unrhyw drosglwyddiad, a'r Rheolwr Cyllid yn

hysbysu'r Pennaeth Cyllid.

- (b) Gall y Cabinet ryddhau symiau penodol o unrhyw gronfa wrthgefn ganolog.
- (c) Ni chaniateir trosglwyddo o gyllidebau incwm sy'n deillio o ffioedd a thaliadau heb gytundeb y Pennaeth Cyllid.

Y Gyllideb Gyfalaf

- 16.7.3 Gellir cymeradwyo trosglwyddiadau rhwng cynlluniau cyfalaf sydd eisoes yn rhaglen gyfalaf fel a ganlyn :-

Swm cronnus am y flwyddyn.	Caniatad Trosglwyddo
Hyd at £100,000	Prif Swyddog
£100,000 - £200,000	Prif Swyddog mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Portffolio perthnasol, y Pennaeth Cyllid a Phennaeth Polisi a Pherfformiad.
£200,000 neu fwy	Y Cabinet

16.8 CYNLLUN A CHADW BALANSAU CYFFREDINOL

PWRPAS:

O ran gweithredu yn bwylllog rhaid cynnal a chadw reserfau. Maent yn galluogi'r Cyngor i ddarparu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl ac felly'n arbed y Cyngor rhag gorwario petai'r fath bethau'n digwydd. Yn ogystal gellir cadw reserfau ar gyfer amcanion penodol.

- 16.8.1 Bydd y Pennaeth Cyllid yn rhoi cyngor i'r awdurdod ynglŷn â'r strategaeth parthed reserfau a bydd hynny'n cynnwys pa falansau cyffredinol y dylai'r Cyngor eu cynnal. Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid fydd ymarfer y darpariaethau hynny a welir yn Adrannau 26 a 27 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.
- 16.8.2 Pob blwyddyn bydd y Pennaeth Cyllid yn ystyried addasrwydd lefelau'r balansau cyffredinol a bydd yn cyflwyno'r strategaeth drafft i'r Cabinet. Bydd y strategaeth ddrafft hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, er mwyn i'r Pwyllgor hwnnw ystyried priodoldeb y trefniadau o safbwynt risgiau'r Cyngor.
- 16.8.3 Rhaid cynnal a chadw balansau cyffredinol yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o Ymarfer

cydnabyddedig (CIPFA/LASAAC) a pholisïau cyfrifeg cydnabyddedig.

- 16.8.4 Gellir sefydlu reserfau penodol pan fo'r Cabinet yn clustnodi swm neilltuol at ddiben neilltuol a'r swm hwnnw heb ei wario o fewn y flwyddyn dan sylw; gellir sefydlu reserfau penodol yn ogystal pan fo'r Pennaeth Cyllid o'r farn y dylid sefydlu adnodd o'r fath er mwyn diogelu'r Cyngor rhag risgiau ariannol posibl a fedrai ddigwydd, neu ar gyfer cronfeydd a roddwyd i'r Cyngor gan drydydd parti.
- 16.8.5 Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid fydd sicrhau bod reserfau o'r fath yn cael eu defnyddion i'r diben a fwriadwyd. Bydd unrhyw gronfeydd nad oes mo'u hangen ar gyfer yr hyn a fwriadwyd yn cael eu dychwelyd i'r balansau, os na fydd y Cabinet yn penderfynu fel arall.
- 16.8.6. Bydd y Pennaeth Cyllid yn adolygu lefel y cronfeydd penodol o bryd i'w gilydd a bydd yn ystyried eu digonolrwydd cyn cau'r cyfrifon terfynol.
- 16.8.7 Pan fo'r Pennaeth Cyllid yn ystyried y bydd neu mae'n debyg y bydd reserfau penodol yn annigonol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol, rhaid iddo adrodd i'r Cabinet am y rhesymau dros hynny a pha beth, os unrhyw beth, yr ystyria'n briodol i'w wneud i rwystro sefyllfa o'r fath rhag digwydd mewn perthynas â'r cronfeydd cyfatebol ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw.
- 16.8.8 Rhaid defnyddio unrhyw falansau cyffredinol yn unol â Rheolau 16.6.11 a 16.6.12.

RHEOLI RISG AC ADNODDAU

16.9 RHEOLI RISG

PWRPAS:

Mae pob cyfundrefn, bod yn gorff preifat neu yn y sector cyhoeddus, yn wynebu risgiau sy'n bygwth pobl, eiddo a pharhad gweithgareddau. Mae a wnelo rheolaeth risg â chlориannu'r mesurau sy'n bodoli er mwyn rheoli risgiau a adnabuwyd ac yna argymell pa weithred y mae'r gyfundrefn angen ei ddilyn er mwyn rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol.

- 16.9.1 Yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg sydd i baratoi a hybu datganiad polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod.
- 16.9.2 Cyfrifoldeb pob Prif Swyddog fydd sicrhau fod sylw'r staff perthnasol yn eu meysydd gwasanaeth wedi ei dynnu at reolaeth risg, bod eu meysydd gwasanaeth yn adolygu risg yn rheolaidd a bod rheolaeth risg yn cael ei ddatblygu. Bydd pob prif Swyddog yn sicrhau fod cofrestrau risg yn cael eu paratoi ar ffurf a gytunir gyda'r Pennaeth Cyllid.
- 16.9.3 Bydd y Pennaeth Cyllid yn datblygu rheolaethau i reoli risg ariannol mewn perthynas â Phrif Swyddogion eraill y Cyngor.

- 16.9.4 Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn sicrhau bod trefn yn bodoli ar gyfer mesur effeithlonrwydd y broses rheoli risg, ac y bydd pob darganfyddiad a ddaw o'r drefn fonitro yn cael ei fwydo'n ôl i'r cylch rheoli risg. Cyfrifoldeb y Prif Swyddogion yw sicrhau bod y gofrestr risgiau perthnasol i'w gwasanaethau hwy yn parhau'n gywir.

16.10 YSWIRIANT

PWRPAS:

Gellir cael yswiriant ar gyfer rhai risgiau. Er na fydd yr yswiriant yn rhwystro rhai digwyddiadau, bydd angen yswiriant digonol i liniaru unrhyw golledion ariannol hyd ag y mae modd.

- 16.10.1 Y Pennaeth Cyllid fydd yn trefnu pob yswiriant a all gynnwys hunan yswiriant. Y Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid ac unrhyw swyddog arall, fydd yn trafod pob hawliad yn erbyn y Cyngor lle nad oes yswiriant.
- 16.10.2 Rhaid i Brif Swyddogion roi gwybod ar fyrder i Wasanaeth Yswiriant a Risg y Cyngor am unrhyw risgiau, eiddo neu gerbydau newydd sydd angen eu hyswirio ac am unrhyw newidiadau neu faterion eraill sy'n effeithio ar yswiriant presennol, yn ôl egwyddor didwylledd llwyr.
- 16.10.3 Rhaid i Brif Swyddogion roi gwybod ar fyrder i'r Pennaeth Cyllid a chadarnhau hynny mewn ysgrifen am unrhyw golled, rhwymedigaeth neu ddifrod neu amgylchiadau a allai achosi cais am iawndal. Ni chaiff yr un swyddog gyfaddef atebolrwydd i hawlydd, na gwneud unrhyw ddatganiad y gellid ei ddehongli felly, ynglŷn â mater a fyddai'n fater i'r yswirwyr.
- 16.10.4 Rhaid gwarchod pob gweithiwr priodol trwy yswiriant gwarant ffyddlondeb fel y fynnir gan Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid i'r Pennaeth Cyllid rybuddio y cwmni yswiriant ynglŷn ag unrhyw amgylchiadau a ofynnir dan delerau y polisi, a hefyd wneud unrhyw hawliadau lle mae'r Cyngor wedi dioddef colled.
- 16.10.5 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid adolygu'r holl yswiriannau o bryd i'w gilydd, pan deimla fod rhaid wrth hynny, gan ymgynghori â Phrif Swyddogion eraill fel y bo'n briodol.
- 16.10.6 Rhaid i Brif Swyddogion ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid ynglŷn â thelerau unrhyw indemniad y gofynnir i'r Cyngor ei roddi. Rhaid i Brif Swyddogion ystyried a threfnu bod Yswiriant Indemniad Proffesiynol digonol dros gyfrifoldebau staff o fewn eu gwasanaethau.

16.11 RHEOLAETH FEWNOL

PWRPAS:

Mae sawl math o risg ariannol, gweinyddol a masnachol yn wynebu Cyngor Gwynedd ac mae ffactorau mewnol ac allanol yn dylanwadu ar lwyddiant y Cyngor i gyflawni ei amcanion. Mae'r system reolaeth fewnol yn darparu llwyddiant y gellir ei fesur mewn gweithgareddau effeithiol ac

effeithlon, gwybodaeth a chofnodion ariannol sicr, cydymffurfiaeth â rheoliadau a deddfwriaeth a rheolaeth risg.

- 16.11.1 Bydd Prif Swyddogion yn sefydlu rheolaeth fewnol effeithlon, gan gynnwys trefniadau cadarn ar gyfer trefnu, gwerthuso, awdurdodi a rheoli eu gweithgareddau er mwyn gweld cynnydd parhaol, economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac er mwyn cyrraedd eu targedau perfformiad ariannol.
- 16.11.2 Mae'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn gyfrifol am gynghori ar systemau rheolaeth fewnol effeithiol. Dylai systemau rheolaeth fewnol effeithiol sicrhau cydymffurfiad â'r holl statudau a rheoliadau perthnasol, a datganiadau perthnasol eraill o arfer gorau. Dylent hefyd sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu'n briodol a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn unol â'r awdurdodau statudol a'r awdurdodau eraill sy'n rheoli eu defnydd.
- 16.11.3 Mae Prif Swyddogion yn gyfrifol am sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer cynllunio, gwerthuso a rheoli eu gweithrediadau er mwyn cyflawni gwelliant parhaus, gwerth am arian, defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni eu targedau perfformiad ariannol.
- 16.11.4 Mae'n ofynnol i' Cyngor ddarparu Datganiad o Reolaeth Fewnol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Bydd y datganiad hwn wedi ei ymgorffori o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol; fel rhan o'r datganiad hwn, mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor wneud sylwadau ar effeithiolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyfan yn y Cyngor, fel dangosydd allweddol o lywodraethu da.

16.12 ARCHWILIAD MEWNOL

PWRPAS:

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn mynegi'r gofyniad am swyddogaeth archwilio fewnol ac felly swyddogaeth werthuso annibynnol a gwrthrychol yw hi a sefydlwyd gan yr awdurdod er mwyn adolygu'r system reoli fewnol.

- 16.12.1 Bydd archwiliad mewnol parhaus, dan reolaeth a chyfarwyddyd annibynnol y Pennaeth Cyllid, i gyfrifon a gweithgareddau ariannol ac eraill y Cyngor, yn unol â'r Rheoliadau Archwilio a Chyfrifo.
- 16.12.2 Gweithredir y swyddogaeth Archwilio Mewnol hyd ag y bod modd yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus. Y "Prif Swyddog Archwilio" dynodedig yn ôl y safonau yw'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg.
- 16.12.3 Paratoir strategaeth a cylch gorchwyl ar gyfer Archwilio Mewnol yn Sarter Archwilio Mewnol y Cyngor sy'n cael ei chymeradwyo a'i hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 16.12.4 Fel arfer bydd yr uwch Reolwr Archwilio a Risg yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid. Fodd bynnag, caiff hefyd adrodd i, a chael troi at y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y

Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu os yw hynny'n angenrheidiol yn ei dyb ef mewn amgylchiadau neilltuol.

- 16.12.5 Bydd gan y Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg neu eu cynrychiolydd cydnabyddedig, awdurdod :-
- (a) i fynd i mewn i unrhyw adeilad, tir neu safle contractio eiddo'r Cyngor ar unrhyw amser rhesymol;
 - (b) i gael gweld yr holl gofnodion, dogfennau a llythyrau sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill o eiddo'r Cyngor;
 - (c) i ofyn am, a derbyn esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ei dyb ef, ar unrhyw fater sy'n cael ei archwilio;
 - (ch) i ofyn i unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor ddangos unrhyw arian parod, nwyddau neu eiddo arall yn perthyn i'r Cyngor sydd yn ei ofal.
- 16.12.6 Bydd y Pennaeth Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio canoldymor a blynyddol a baratowyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ac sy'n ystyried nodweddion a risgiau perthynol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo'r cynlluniau.
- 16.12.7 Bydd pob swyddog priodol yn ystyried ac yn ymateb i argymhellion yr adroddiadau archwilio. Bydd Prif Swyddogion yn gofalu bod unrhyw weithgaredd a gytunwyd arno ar sail argymhellion yr archwiliad wedi'i wireddu yn amserol ac effeithlon yn unol â'r cynllun gweithredu a gytunwyd.
- 16.12.8 Bydd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:
- (a) Ar ganlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod blaenorol.
 - (b) Am unrhyw wendidau rheolaeth sylweddol a ddarganfuwyd neu a archwiliwyd.
 - (c) Am unrhyw argymhellion archwilio na wireddwyd o fewn amserlen a gytunwyd, lle byddai methiant i weithredu ar yr argymhellion hynny wedi ymestyn gwendid rheoli sylweddol.
 - (ch) Cynnydd ar gwblhau Cynllunio Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

16.13 **ARCHWILIAD ALLANOL**

PWRPAS:

Mae archwilwyr allanol yn craffu ar gyfrifon Cyngor Gwynedd a rhaid iddynt gael eu bodloni fod y datganiad cyfrifon yn "rhoi darlun teg" o sefyllfa ariannol yr awdurdod a'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn dan

sylw a'i fod yn cydymffurfio â gofynion y ddeddf. Rhaid i'r archwiliwr allanol adrodd hefyd am drefniant y Cyngor i reoli ei berfformiad.

- 16.13.1 Bydd pob un o weithgareddau'r Cyngor yn agored i'w archwilio yn unol â Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 a Mesurau Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a 2011.
- 16.13.2 Mae'n ddisgwyliad i'r archwilydd allanol weithredu yn unol â Côt Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'n ddyletswydd ar bob un o swyddogion y Cyngor i beidio rhwystro'r archwilydd rhag cydymffurfio â'r Côt.
- 16.13.3 Y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol sydd yn gyfrifol am gydlynu perthynas y Cyngor gyda Rheolwr Cydberthnasau Swyddfa Archwilio Cymru at bwrpasau archwiliad allanol ac arolygaeth. Mae'n ofynnol ar swyddogion y Cyngor i hysbysu'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol os ydynt o'r farn nad yw'r archwilydd allanol yn cydymffurfio â Côt Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol.
- 16.13.4 Bydd y Pennaeth Cyllid yn datblygu cydweithrediad a pherthynas weithio dda gyda'r Rheolwr Cydberthnasau a'r Archwiliwr Penodedig, gan gynnwys rhoi a derbyn gwybodaeth berthnasol, boed yn gyfrinachol neu beidio, ac yn:
- (a) sicrhau fod yr archwilydd allanol ar unrhyw adeg rhesymol yn cael gweld/mynd at yr eiddo, personél, dogfennau ac asedau y mae'r archwilydd allanol yn eu hystyried yn angenrheidiol at ddibenion eu gwaith;
 - (b) sicrhau fod cyswllt effeithiol rhwng yr archwiliad mewnol ac allanol;
 - (c) gweithio gyda'r archwiliwr allanol a chynghori'r Cyngor, y Cabinet a'r y Prif Swyddogion ar eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag archwiliad allanol;
 - (ch) sicrhau fod yr holl gofnodion a systemau wedi'u diweddarau ac ar gael i'w gweld.

16.14 RHWYSTRO TWYLL A LLYGREDD

PWRPAS:

Ni fydd yr awdurdod yn goddef twyll a llygredd yng ngweinyddiad ei gyfrifoldebau, pa un ai o fewn neu oddi allan i'r awdurdod. O ran priodoldeb ac atebolrwydd mae'r awdurdod yn disgwyl i aelodau a staff ar bob lefel arwain drwy fod yn batrwm i bobl eraill i sicrhau y byddent yn cadw at ofynion y ddeddf, y rheolau, y gweithdrefnau a'r ymarferion.

- 16.14.1 Bydd y Cyngor yn mabwysiadu, cynnal a lledaenu polisi yn erbyn twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, a bydd yn arddel diwylliant nad yw'n goddef twyll a llygredd.

- 16.14.2 Bydd rheolwyr yn ymdrin yn gyflym ac yn gadarn, ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol hyn, y Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Gwrth-Lygreddigaeth a'r Cynllun Ymateb i Dwyll, gydag unrhyw un sy'n twyllo neu'n ceisio twyllo yr awdurdod, yn derbyn neu gynnig llwgrwobrwyon neu sy'n llygreddig mewn modd arall.
- 16.14.3 Bydd swyddogion y Cyngor bob amser yn gofalu bod unrhyw roddion neu letygarwch wedi'i dderbyn yn unol â Chôd Ymarfer y Cyngor ar Dderbyn Rhoddion a Lletygarwch, sef rhan 7.7 o Amodau Gwasanaeth Lleol y Cyngor. Yn ogystal bydd swyddogion y Cyngor hefyd yn cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad i Staff.
- 16.14.4 Rhaid i aelodau'r Cyngor bob amser gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad i aelodau, ac ni chant dderbyn rhoddion neu letygarwch gan drydydd parti oni fo'r rheiny o fewn y canllawiau perthnasol sydd wedi'u caniatáu gan y Côd Ymddygiad.
- 16.14.5 Bydd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn sefydlu dulliau priodol o ganu'r gloch ac yn cynnal Polisi Canu'r Gloch, a bydd yn sicrhau bod yr holl weithdrefnau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u gweithredu'n effeithiol.
- 16.14.6 Os cyfyd unrhyw fater sydd neu y tybir ei fod yn ymwneud ag afreoleidd-dra ynglŷn ag arian parod, nwyddau neu unrhyw drefniant i hawlio taliad amhriodol gan y Cyngor (gan gynnwys taflenni amser gwaith neu geisiadau teithio) neu eiddo arall o eiddo'r Cyngor, yna rhaid i'r Prif Swyddog neu swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad ddilyn Strategaeth Gwrth-Dwyll y Cyngor a rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r Pennaeth Cyllid a/neu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg, a fydd yn cymryd y camau angenrheidiol i ymchwilio i'r mater a pharatoi adroddiad.
- 16.14.7 Pan fo'r Swyddog Monitro, ar ôl ystyried y fath adroddiad, o'r farn bod achos *prime facie* o dorri'r gyfraith droseddol, yn ôl doethineb y Pennaeth Cyllid, gellir adrodd am y mater wrth yr Heddlu i'w ymchwilio ymhellach. Os bydd hynny'n ymwneud â rhywun a gyflogir gan y Cyngor, bydd disgyblu'n digwydd ar fyrder yn unol â Threfn Ddisgyblu'r Cyngor, boed y mater yn cael ei gyfeirio at yr Heddlu ynte peidio.
- 16.14.8 Pan gollir eiddo (gan gynnwys colled drwy dân) neu arian parod, rhaid i'r Prif Swyddog neu'r Swyddog arall sy'n gwneud y darganfyddiad roddi gwybod am hynny ar unwaith i'r Gwasanaeth Yswiriant a Risg a fydd yn gyfrifol am wneud yr hawliad priodol ar gwmni yswiriant y Cyngor.

16.15 **ASEDAU**

Diogelwch

PWRPAS:

Mae gan yr awdurdod asedau mewn eiddo, cerbydau, offer, dodrefn ac eitemau eraill sydd werth miliynau o bunnoedd. Mae'n bwysig diogelu asedau a gwneud defnydd effeithlon ohonynt wrth ddarparu gwasanaethau a gwneud trefniadau i sicrhau diogelwch yr asedau a'r

wybodaeth sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau.

- 16.15.1 Bydd y Pennaeth Amgylchedd yn sefydlu a chynnal cofrestr o'r holl dir ac adeiladau sydd ym meddiant neu wedi eu prydlesu gan y Cyngor (yn cynnwys cytundebau prydlesu, cytundebau tenantiaeth a thrwyddedau) gan gofnodi'r dyddiad y'u sicrhawyd neu y'u cyfeddwyd, bwriad eu cadw, yr adran sy'n dal yr eiddo, lleoliad, cyfeirnod cynllun, maint, manylion pryniant, manylion am natur y llog a'r rhenti sy'n daladwy, a manylion y tenantiaethau a'r trwyddedau a ganiatawyd.
- 16.15.2 Fe sicrha pob Prif Swyddog fod y tir neu adeiladau y mae'n gyfrifol amdanynt yn cael eu iawn ddefnyddio ar gyfer yr amcanion a bennwyd iddynt, y cant eu harchwilio o leiaf unwaith y flwyddyn ac y cymerir camau digonol i ddiogelu teitl y Cyngor.
- 16.15.3 Mae pob Prif Swyddog yn gyfrifol am ofalu bod yr holl adeiladau, nwyddau, dodrefn, offer, cofnodion, arian, a.y.b., sydd yn ei ofal yn gwbl ddiogel bob amser, a hefyd bod mynediad i systemau cyfrifiadurol yn ei ofal yn ddiogel. Rhaid iddo ymgynghori â'r Pennaeth Cyllid mewn unrhyw achos lle y tybir bod diogelwch yn ddiffygiol neu lle'r ystyrir bod angen am drefniadau diogelwch arbennig.
- 16.15.4 Rhaid cytuno gyda'r Prif Gyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth ar uchafswm o arian parod y dylid ei gadw ac ni ellir cadw mwy na hynny heb ei chaniatâd arbennig hi.
- 16.15.5 Rhaid i bob Prif Swyddog wneud trefniadau addas i gadw goriadau i gistiau a blychau tebyg yn ddiogel. Os collir unrhyw un o'r cyfryw oriadau, rhaid rhoi gwybod i'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar unwaith.
- 16.15.6 Rhaid i bob swyddog wneud trefniadau addas ar gyfer gwarchod gwybodaeth sydd yn ei ofal, un ai ar system gyfrifiadur neu fel arall, gan gynnwys diogelu allweddeiriau.
- 16.15.7 Y Pennaeth Gofal Cwsmer fydd yn gyfrifol am gadw gwybodaeth ar systemau cyfrifiadurol corfforaethol y Cyngor yn gwbl ddiogel a bydd yn trefnu i archwilio pob trosglwyddiad data i ac o'r is-systemau cyn ac ar ôl y fath drosglwyddiad er mwyn sicrhau bod y data'n gyflawn.

Tir ac Eiddo

- 16.15.8 Ni cheir prynu tir ac adeiladau ond yn unol â'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion lle mae cyllideb ar gyfer y pryniant. Ar gyfer pob pryniant arall rhaid cael caniatad yr Aelod Cabinet.
- 16.15.9 Ni cheir gwerthu na ffeirio tir ac adeiladau ond yn unol â chyfarwyddiadau'r Cabinet neu yn unol â'r trefniadau hynny a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Cabinet. Lle bo'r trafodiad ar gyfer swm sydd yn ôl cyfarwyddyd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol yn llai na'r gydnabyddiaeth orau a ellir ei gael am yr eiddo, rhaid i'r Cabinet fodloni ei hun y gwnaed y trafodiad yn unol â'r Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003. Ym mhob achos arall dylid gwerthu neu ffeirio tir ac eiddo am bris y farchnad agored fel a bennir gan yr Uwch

Reolwr Eiddo Corfforaethol.

- 16.15.10 Dim ond lle mae adnoddau ar gael ar gyfer hynny y gellir dymchwel adeiladau.
- 16.15.11 Bydd pob Prif Swyddog yn sicrhau yr adroddir yn ddiymdroi wrth yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol am bob tir ac adeilad sy'n weddill i anghenion, a hwnnw'n gwneud argymhellion i'r Prif Swyddog perthnasol o ran cael gwared neu beth bynnag arall a wneir gyda'r tir/a neu adeiladau.
- 16.15.12 Fe wna'r Swyddog Monitro y trefniadau angenrheidiol i sicrhau y cedwir holl ddogfennau teitl y tir sy'n eiddo neu a brydlesir gan y Cyngor yn ddiogel.
- 16.15.13 At amcanion y Rheol hwn ac i osgoi amwyster bydd tir yn cynnwys unrhyw ystâd neu ddiddordeb mewn tir a fo'n gyfreithiol neu ecwitiol.

Rhestrau Eiddo

- 16.15.14 Rhaid i bob adran gadw rhestr eiddo yn ôl lleoliad yn rhoddi disgrifiad addas o ddodrefn, ffitiadau ac offer (gan gynnwys offer TGCh), peiriannau a pheirianwaith yr adran. Bydd y Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddogion cysylltiedig yn penderfynu i ba raddau y cofnodir eiddo'r Cyngor fel hyn ac ar ba ffurf y cedwir y rhestrau.
- 16.15.15 Ni chaniateir symud eiddo'r Cyngor ac eithrio yng nghwrs busnes arferol y Cyngor, na'i ddefnyddio at bwrpas arall heblaw defnydd y Cyngor, ac eithrio yn ôl cyfarwyddiadau pendant y Prif Swyddog cysylltiedig.
- 16.15.16 Dylid ymwared ag eiddo dros ben, heblaw am dir ac adeiladau, yn unol â Rheol 16.15.30 a 16.15.31.
- 16.15.17 Os bydd angen cymryd camau i droi pobl allan, ailfeddiannu neu achosion tebyg, cedwir rhestr eiddo fesul eitem ym mhresenoldeb o leiaf dau swyddog er mwyn atal neu leddfu colled neu ddifrod i'r eiddo symudol preifat.

Nwyddau a Chyflenwadau

- 16.15.18 Bydd pob Prif Swyddog yn gyfrifol am gadw nwyddau a chyflenwadau ei adran yn ddiogel. Cedwir cofnodion y nwyddau gan y Prif Swyddog ar ffurf a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Pennaeth Cyllid.
- 16.15.19 Ni cheir cadw mwy o nwyddau nag sydd eu hangen yn ôl y gofynion arferol ac eithrio o dan amgylchiadau arbennig, a gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Cyllid.
- 16.15.20 Rhaid cael danfoneb wedi'i harwyddo gan y sawl sy'n derbyn y nwyddau a dderbynnir pryd bynnag y bo'n ymarferol, a dylid ei chyflwyno pan drosglwyddir y nwyddau. Rhaid sicrhau fod y nwyddau oll yn gyflawn o ran nifer, a lle bo hynny'n ymarferol, o ran ansawdd, adeg eu derbyn.

Lle nid oes modd sicrhau adeg eu derbyn fod y nwyddau o'r ansawdd iawn ac yn cydymffurfio â'r fanyleb, rhaid gwneud hyn cyn gynted ag y bo modd wedi hynny. Ni ddylid derbyn nwyddau sy'n amlwg yn ddiffygiol neu heb gydymffurfio â'r fanyleb. Rhaid addasu'r danfonebau er mwyn nodi hynny.

- 16.15.21 Rhaid i bob Prif Swyddog roi i'r Pennaeth Cyllid hynny o ystadegau ariannol ynglŷn â chofnodion nwyddau neu gofnodion cost ag a fydd yn angenrheidiol ar gyfer cofnodion cyfrifo ac ariannol y Cyngor. Y Pennaeth Cyllid, ynghyd â'r Prif Swyddog perthnasol, fydd yn pennu'r drefn ar gyfer prisio'r nwyddau.
- 16.15.22 I gefnogi rhyddhau nwyddau allan o stordy gan y ceidwad neu'r sawl sydd â gofal, rhaid wrth archeb wedi ei arwyddo gan berson awdurdodedig yn datgan y maint neu nifer o nwyddau sydd eu hangen. Rhaid cael derbynneb am y nwyddau ar bapur pwrpasol i'w arwyddo hefyd gan y sawl sy'n rhoi'r nwyddau.
- 16.15.23 Bob blwyddyn ar 31 Mawrth, neu mor agos at y dyddiad hwnnw ag sy'n ymarferol, neu ddyddiad arall y cytunir arno gyda'r Pennaeth Cyllid, rhaid i'r swyddog a gafodd y cyfrifoldeb gan y Prif Swyddog (heblaw am unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrif stoc), gyfrif yr holl stoc yn fanwl, a pharatoi cofnodion stoc a fydd yn nodi pa stoc sydd mewn llaw a'u gwerth; gellir hepgor y cyfrif stoc blynyddol mewn gwasanaethau lle gweithredir trefn cadw stoc gyfredol. Rhaid dweud am unrhyw ddiffyg neu ormodedd sylweddol wrth y Pennaeth Cyllid ar ffurf a gymeradwyir ganddo. Ni cheir diddymu unrhyw ormodedd neu ddiffyg sylweddol ac eithrio yn unol â Rheol Gweithdrefn Ariannol 16.20.13.
- 16.15.24 Gall cynrychiolydd y Pennaeth Cyllid fod yn bresennol mewn unrhyw gyfrif stoc er mwyn gwneud prawf gwirio a bydd ganddo'r hawl i wneud prawf gwirio ar unrhyw adeg arall.
- 16.15.25 Rhaid i bob Prif Swyddog arwyddo taflenni stoc neu gofnodion stoc ei adran i ardystio mewn llawysgrifen fod y manylion a'r prisiau a ddangosir yn rhai cywir, a rhaid iddo anfon tystysgrif i'r perwyl hwnnw at y Pennaeth Cyllid.

Eiddo Deallusol

PWRPAS:

Mae Eiddo Deallusol yn derm generig sy'n cynnwys dyfeisiadau a gwaith ysgrifenedig. Os gwneir y pethau hyn gan y gweithwyr cyflogedig yn ystod amser gwaith, yna fe gyfrifir hwynt yn eiddo'r cyflogwr, fel rheol, ac nid yn eiddo'r gweithiwr. Mae sawl deddf Seneddol yn cyfeirio at wahanol fathau o eiddo deallusol. Gall rhai gweithgareddau o fewn yr awdurdod arwain at greu eitemau sy'n batenadwy, er enghraifft, datblygiadau mewn meddalwedd. Gelwir yr eitemau hyn fel cyfangorff yn eiddo deallusol.

- 16.15.26 Bydd Prif Swyddogion yn sicrhau bod rheolaeth mewn lle i sicrhau na fydd gweithwyr yn gwneud gwaith preifat yn ystod cyfnodau pan fyddent yn gweithio i'r Awdurdod a bod gweithwyr yn ymwybodol o hawliau'r cyflogwyr mewn perthynas ag eiddo deallusol.
- 16.15.27 Ni chaiff uwch-swyddog ymgymryd ag unrhyw waith tra'n gyflogedig gan y Cyngor nad yw'n waith ar gyfer neu ar ran yr Awdurdod oni bai fod hynny yn unol â threfn a amlinellir yn yr Amodau Gwaith Lleol o safbwynt cyflogaeth oddi allan i'r Cyngor.
- 16.15.28 Os bydd gweithiwr ar unrhyw adeg yn ystod ei gyflogaeth yn gwneud neu'n darganfod neu'n cymryd rhan mewn cynhyrchu neu ddarganfod unrhyw Eiddo Deallusol mewn perthynas â neu y gellid ei ddefnyddio gan yr Awdurdod, rhaid i'r gweithiwr yn ddiymdroi roddi manylion llawn am yr Eiddo Deallusol i'r Prif Swyddog perthnasol.

Gwaredu Asedau

PWRPAS:

Ni fyddai'n ddarbodus nac effeithlon pe byddai cost asedau yn drech na lles yr asedau hynny. Rhaid cael gwared ag adnoddau sydd wedi'u disodli, na ellir eu trwsio neu nad ydynt yn angenrheidiol, yn unol â chyfraith gwlad a rheoliadau'r awdurdod.

- 16.15.29 Yn amodol ar unrhyw benderfyniad gan y Cyngor, yr unig ffordd o gael gwared ag eiddo dros ben o unrhyw fath, ac eithrio tir ac adeiladau, yw trwy drefniant a gymeradwywyd ymlaen llaw gyda'r Pennaeth Cyllid a lle bo hynny'n gymwys, gwneir hyn trwy ddyfynbris cystadleuol, tendro, neu arwerthiant cyhoeddus lle bynnag y bo'n ymarferol; gyda'r drefn yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn ar gyfer Contractau. Er mwyn cael gwared trwy unrhyw ddull arall, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig y Pennaeth Cyllid ymlaen llaw.
- 16.15.30 Rhaid i swyddogion sy'n cael gwared ag eiddo dros ben, ac eithrio tir ac adeiladau, ystyried adleoli'r asedau o fewn gwasanaeth arall yn y Cyngor a/neu gyfleon ailgylchu eraill.
- 16.15.31 Rhaid talu am eiddo dros ben o unrhyw fath cyn neu wrth ei drosglwyddo i'r prynwr, oni bai bod trefniadau boddhaol eraill wedi eu gwneud ymlaen llaw gyda'r Pennaeth Cyllid.
- 16.15.32 Rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid am unrhyw asedau a waredwyd er mwyn sicrhau cofnodi'r manylion cyfrifo priodol er mwyn dileu gwerth yr asedau a waredwyd o gofnodion y Cyngor a chynnwys yr enillion o'r gwerthiant, fel y bo'n briodol.

16.16 RHEOLAETH TRYSORLYS

PWRPAS:

Mae gwerth miliynau o bunnoedd yn mynd trwy lyfrau Cyngor Gwynedd bob blwyddyn. Mae Rheolaeth Trysorlys dda yn rhoi sicrwydd fod arian

yr awdurdod wedi'i reoli'n gywir mewn modd sy'n cydbwysu risg ac elw ond hefyd yn rhoi'r sylw blaenaf i ddiogelwch swm cyfalaf yr awdurdod.

Rheolaeth Trysorlys a Bancio

- 16.16.1 Rhaid gwneud pob trefniant ynglŷn â chyfrifon banc y cyngor, a rhyddhau sieciau a chyfarwyddiadau trosglwyddiad banc, gan y Pennaeth Cyllid neu yn ôl trefniadau a gymeradwywyd ganddo. Cedwir y cyfrifon banc yn enw Cyngor Gwynedd ac nid yn enw unrhyw swyddog, boed hynny yn ei enw personol neu enw ei swydd. Rhaid cael copi ffacsimili argraffedig o lofnod y Pennaeth Cyllid ar bob siec a dynnir ar gyfrifon Banc y Cyngor ac eithrio sieciau a dynnir o gyfrifon imprest awdurdodedig; fe wna y Pennaeth Cyllid drefniadau i'w rhyddhau yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor, yn arbennig felly wrth ymwneud â llofnodion awdurdodedig. Ni awdurdodir cyfarwyddiadau trosglwyddiadau banc o unrhyw fath ond dan drefniadau a wnaed gan y Pennaeth Cyllid.
- 16.16.2 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid a phawb arall sy'n gofalu am gyfrif banc ar ran y Cyngor, dan oruchwyliaeth y Pennaeth Cyllid, wneud trefniadau diogel ac effeithiol ar ran y Cyngor ar gyfer cadw a defnyddio sieciau agored, paratoi, llofnodi a dosbarthu sieciau, archwilio sieciau taledig heb oedi, a sicrhau'n annibynnol fod y llyfr arian parod yn cytuno a chyfrif y banc.

Buddsoddiadau a Benthycu

- 16.16.3 Y Pennaeth Cyllid fydd yn gyfrifol am fenthycg, buddsoddi dros dro, ail fenthycg ac ad-dalu arian, yn amodol ar unrhyw gyfyngiad a sefydlir trwy ddeddfwriaeth y llywodraeth a *Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheolaeth Trysorlys mewn Awdurdodau Lleol*, o fewn terfynau a bennir gan y Cyngor Llawn yn y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, Dangosyddion Darbodus y Cyngor a'r Atodlenni Rheolaeth Trysorlys. Bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar y gweithgareddau hyn.
- 16.16.4 Fe fydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Pensiynau a fydd yn gwneud ac, o bryd i'w gilydd, yn adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolaeth effeithiol a chadwraeth ddiogel buddsoddiadau'r gronfa bensiwn, gan gynnwys penodi a diswyddo rheolwyr cronfeydd.
- 16.16.5 Rhaid i fuddsoddiadau a wneir mewn enwau eraill dan drefniadau a wnaed gyda rheolwyr cronfeydd gael eu clustnodi i gyfrifon penodol sy'n cydnabod yn unigryw ddiddordeb buddiannol y Cyngor. Yn enw'r Cyngor y gwneir pob buddsoddiad arall ond gellir eu clustnodi ar gyfer cyfrifon penodol.
- 16.16.6 Ni chaiff unrhyw swyddog gytuno i unrhyw brydles neu drefniant talu am nwyddau neu wasanaethau dros gyfnod o amser heb gymeradwyaeth y Pennaeth Cyllid.
- 16.16.7 Y Swyddog Monitro fydd Cofrestrydd y Cyngor o stociau, bondiau a morgeisi cyffredinol, tra bydd y Cyngor yn penodi Ceidwad ar gyfer

asedau'r Gronfa Bensiwn.

Ymddiriedolaethau

- 16.16.8 Lle bo modd, rhaid i bob cronfa ymddiriedolaeth fod yn enw'r Cyngor, a'i gweinyddu gan y Cyngor.
- 16.16.9 Rhaid i bob swyddog sy'n gweithredu fel ymddiriedolwr yn rhinwedd ei swydd roi pob arian, buddsoddiadau, a.y.b., sy'n ymwneud â'r ymddiriedolaeth i gadw gyda'r Pennaeth Cyllid oni chymeradwyir trefniadau eraill ysgrifenedig ganddo ef.
- 16.16.10 Ni ddylid cymhwyso'r Rheol hwn at Dderbyniaethau a arolygir gan y Llys Gwarchod.

Cyfrifon Imprest

- 16.16.11 Bydd y Pennaeth Cyllid, yn ôl ei ddoethineb, yn darparu cyfrifon imprest ar gyfer swyddogion y Cyngor ac eraill a fo'u hangen i ddibenion talu cyfrifon mân neu dreuliau eraill.
- 16.16.12 Bydd y Pennaeth Cyllid, lle'r ystyria fod hynny'n briodol, yn agor cyfrif gyda banc y Cyngor i'w ddefnyddio gan unrhyw ddaliwr imprest, ac ni chaiff hwnnw ordynnu o'r cyfrif. Cyfarwyddir y Banc i roi gwybod ar fyrder i'r Pennaeth Cyllid petai daliwr cyfrif imprest yn gordynnu.
- 16.16.13 Ni ellir rhoddi mewn cyfrif imprest unrhyw incwm a dderbynnir ar ran y Cyngor, yn hytrach rhaid ei fancio neu ei dalu i'r awdurdod fel a nodir mewn rhan arall o'r rheolau hyn.
- 16.16.14 Cyfyngir taliadau i eitemau bychain neu eitemau eraill a gymeradwywyd gan y Pennaeth Cyllid, a gall y Pennaeth Cyllid fynnu derbynneb fel prawf o'r taliad os gwêl bod angen. Rhaid i bob derbynneb ddangos Treth ar Werth, lle codir Treth ar Werth.
- 16.16.15 Rhaid i Swyddog sy'n gyfrifol am gyfrif imprest roi tystysgrif i'r Pennaeth Cyllid am gyflwr y cyfrif, fel y gofynnir ar y ffurflen ad-dalu, ac ar adegau eraill os gofynnir amdani.
- 16.16.16 Rhaid hawlio'n ôl arian a wariwyd yn fisol, ac eithrio lle caniateir trefniadau arbennig gan y Pennaeth Cyllid.
- 16.16.17 Os bydd swyddog yn gadael y Cyngor neu'n peidio â bod â hawl i ddal blaendal imprest, yna rhaid iddo/iddi roi cyfrif i'r Pennaeth Cyllid am y swm a dderbyniodd, ar ffurf a bennir gan y Pennaeth Cyllid.
- 16.16.18 Rhaid cadw cyfrif imprest yn ddiogel ac ar wahân oddi wrth unrhyw arian personol neu gronfeydd eraill a fo gan y sawl sy'n gyfrifol am y cyfrif.
- 16.16.19 Ni chymhwysir yr adran hon at gynlluniau llyfrau sieciau i ysgolion a fabwysiedir gan y Cyngor.

16.17 STAFFIO

PWRPAS:

Mae'n holl bwysig fod yr awdurdod yn recriwtio ac yn cadw staff deallus ac o'r safon uchaf ac â chymwysterau addas er mwyn darparu gwasanaeth o'r safon orau.

- 16.17.1 Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi arweiniad cyffredinol i staff. Bydd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn gyfrifol am sicrhau fod system gwerthusiad priodol neu system arall a gytunwyd arni yn ei le i bennu tâl am swydd.
- 16.17.2 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid sicrhau fod darpariaeth gyllidebol ar gyfer pob gweithiwr newydd a phresennol a rhaid i Brif Swyddogion ymgynghori gyda'r Pennaeth Cyllid ar unrhyw newid i'r sefydliad staffio drwy ffurflen addasu strwythur.
- 16.17.3 Rhaid i'r Prif Swyddogion sicrhau trefniadau priodol o fewn eu gwasanaethau er mwyn hysbysu'r Pennaeth Cyllid mor fuan ag sydd modd, ac ar y ffurf a nodwyd gan y Pennaeth Cyllid, am bob mater sy'n effeithio ar y cyfryw daliadau, ac yn arbennig :
- (a) penodiadau, ymddiswyddiadau, diswyddiadau, ataliadau, secondiadau a throsglwyddiadau;
 - (b) absenoldeb o waith oherwydd afiechyd neu reswm arall, ar wahân i wyliau cydnabyddedig;
 - (c) newidiadau mewn tâl ac eithrio ychwanegiadau a dyfarniadau tâl cyffredin, a chytundebau sy'n effeithio ar bawb;
 - (ch) gwybodaeth angenrheidiol i gadw cofnodion gwasanaeth ar gyfer cyfraniadau pensiwn, treth incwm, yswiriant gwladol a materion tebyg.
- 16.17.4 Bydd y Pennaeth Cyllid yn gweithredu fel ymgynghorwr i'r Prif Swyddogion ar faterion megis Yswiriant Cenedlaethol a chyfraniadau pensiwn, fel y bo'n briodol.
- 16.17.5 Rhaid i Brif Swyddogion, gyda chymorth Rheolwyr Cyllid perthnasol, gyhoeddi cyllideb staffio flynyddol a sicrhau fod y gyllideb staffio yn dangos rhagolwg manwl o lefelau staffio a'i fod yn cyfateb i ddarpariaeth cyllideb refeniw briodol (gan gynnwys argostau a gorbenion).

16.18 DIOGELU EIDDO PERSONOL

PWRPAS:

Ar adegau bydd swyddogion penodedig y Cyngor, yn unol â'r ddeddf, yn derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu eiddo preifat trydydd parti. Rhaid gosod

rheolau ar gyfer gofal a rheolaeth yr eiddo hyn.

- 16.18.1 Rhaid i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol sydd yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol ag Adran 6 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (neu unrhyw Brif Swyddog arall a effeithir) gymryd pob cam angenrheidiol i rwystro neu liniaru colled neu niwed i eiddo symudol cleient (a fo'n berson arall heblaw y Cyngor), lle bo cyfrifoldeb yn gorwedd gyda'r Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, a rhaid iddo/iddi drefnu bod infentori eitemedig wedi'i baratoi ym mhresenoldeb dau swyddog, ar dull a gymeradwyir gan y Pennaeth Cyllid.
- 16.18.2 Gwneir infentori eitemedig cyn gynted ag y bo modd ar ôl penodi'r Prif Swyddog yn Dderbynnydd Llys ac ym mhob achos, dylid cwblhau'r infentori ym mhresenoldeb dau swyddog a dylid cadw'r infentori. Rhoddir pob eitem gwerthfawr megis gemwaith, watsys a manion cyffelyb eraill a gweithredoedd eiddo i gadw yng ngofal y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol (ac unrhyw Brif Swyddog arall). Rhaid adrodd am unrhyw golled i'r Pennaeth Cyllid, yn ddiymdroi.

SYSTEMAU A DULLIAU GWEITHREDU ARIANNOL

16.19 CYFFREDINOL

PWRPAS:

Mae gan y gwasanaethau sawl system a gweithdrefn sy'n ymwneud â rheoli asedau'r awdurdod gan gynnwys systemau prynu, costio a rheoli. Man gan y Pennaeth Cyllid gyfrifoldeb proffesiynol i sicrhau bod systemau ariannol yr awdurdod yn rhai cadarn; dylid felly roi gwybod iddo am unrhyw ddatblygiadau newydd neu newidiadau.

- 16.19.1 Y Pennaeth Cyllid sydd yn gyfrifol am weithrediad systemau cyfrifo'r awdurdod, ffurf y cyfrifon a'r cofnodion ariannol sy'n eu cynnal. Rhaid i'r Pennaeth Cyllid gymeradwyo unrhyw newidiadau a wneir gan y Prif Swyddogion i'r systemau ariannol sy'n bodoli neu unrhyw system newydd a sefydlir neu unrhyw newidiadau i bapur swyddfa sy'n ymwneud â chyllid. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y Prif Swyddogion yw gweithrediad cywir y systemau ariannol o fewn eu gwasanaethau hwy.
- 16.19.2 Rhaid cael cydsyniad y Pennaeth Cyllid ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir gan y Prif Swyddogion i'r gweithdrefnau cydnabyddedig er mwyn ateb anghenion penodol eu gwasanaethau hwy.

INCWM A GWARIANT

16.20 INCWM

PWRPAS:

Gall Incwm fod yn ased sy'n agored i'w gamddefnyddio, mae'n rhaid cael systemau casglu incwm i sicrhau bod yr holl incwm sy'n ddyledus wedi'i adnabod a'i gasglu, bod derbynneb ar ei gyfer a'i fod wedi'i fancio'n gywir. O ddewis, mae'n well cael yr incwm cyn darparu'r

nwyddau neu wasanaethau er mwyn gwella llif arian yr awdurdod ac osgoi costau ac amser trin dyledion.

- 16.20.1 Rhaid i bob swyddog sy'n derbyn arian yn enw'r Cyngor gydnabod ei dderbyn a chadw cofnodion mewn dull a gymeradwyir o bryd i'w gilydd gan y Pennaeth Cyllid, gan gynnwys cyfrif manwl a chronolegol o'r holl dderbynion ac adneuon. Gallai'r cofnodion hyn gynnwys rhai a gedwir ac a gynhyrchir gan diliau electroneg neu systemau awtomatig eraill.
- 16.20.2 Ni chaiff unrhyw swyddog roddi derbynneb am arian a dderbynnir yn enw'r Cyngor ar unrhyw ffurflen heblaw am ffurf a gymeradwyir gan y Pennaeth Cyllid.
- 16.20.3 Ni ellir defnyddio arian y Cyngor i newid sieciau.
- 16.20.4 Rhaid i bob arian a dderbynnir ar ran y Cyngor mewn unrhyw wasanaeth gael ei fantoli a'i dalu i'r Pennaeth Cyllid, heb dynnu dim ohono, bob dydd neu cyn amlled ag y mynno'r Pennaeth Cyllid. Drwy gytundeb â'r Pennaeth Cyllid, gellir talu y fath arian yn syth i un o gyfrifon y Cyngor. Bydd y Pennaeth Cyllid yn sicrhau bod trefniadau diogel ac effeithlon yn bodoli ar gyfer cofnodi incwm a dderbynnir trwy ddebyd uniongyrchol.
- 16.20.5 Wrth dalu arian i mewn i gyfrif banc y Cyngor, rhaid i'r cyfryw swyddogion ddefnyddio'r llyfrau talu i mewn swyddogol a ddarperir gan y Pennaeth Cyllid a nodi ar y slip talu i mewn ar wrthddalen neu ddyblygiad ohoni, fanylion y taliad yn cynnwys, yn achos pob siec a dalwyd i mewn:
- (a) swm y siec, a
 - (b) cyfeirnod (megis rhif y dderbynneb a roddwyd neu enw'r dyledwr) i gysylltu'r siec â'r ddyled neu ddyledion a setlwyd yn llawn neu'n rhannol gan y taliad.
- 16.20.6 Rhaid croesi pob siec yn benodol i'r Cyngor ar yr wyneb gan roi cyfeirnod a chyfeiriad y sefydliad sy'n ei dderbyn ar y cefn.
- 16.20.7 Rhaid i bob ffurflen neu lyfr derbynebau swyddogol, ynghyd â thrwyddedau, tocynnau (o werth) a phob dogfen neu bapur sy'n gweithredu fel derbynebau am werth arian fod yn y ffurf a gymeradwywyd gan y Pennaeth Cyllid, ef fydd hefyd yn eu harchebu, eu rheoli a'u dosbarthu i'r gwasanaethau a rhaid cofnodi a chydabod mewn modd priodol bopeth a dderbynnir ac a ddosberthir. Rhaid i'r Pennaeth Cyllid gymeradwyo ffurf yr holl lyfrau a ffurflenni cyfrif.
- 16.20.8 Bydd holl drefniadau casglu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor dan reolaeth y Pennaeth Cyllid a rhaid anfon yr holl gyfrifon drwyddo ef oni bai ei fod yn cytuno i drefn arall. Rhaid rhoi manylion yn brydlon i'r Pennaeth Cyllid am bob tâl a godir am waith a wnaethpwyd, gwasanaethau a roddwyd neu nwyddau a gyflenwyd gan yr amryfal wasanaethau ac am bob swm arall sy'n ddyledus, a rhaid cyflwyno'r wybodaeth ar y ffurf a bennwyd ganddo. Bydd y Pennaeth Cyllid a

phob Prif Swyddog perthynol yn sefydlu a chynnal trefniadaeth ar gyfer gweinyddu arian a chyfrifon pob gwasanaeth er mwyn sicrhau fod yr holl symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael eu cofnodi'n briodol ac yn brydlon, ac ar gyfer casglu, cadw, rheoli a rhannu yr holl arian parod o fewn y gwahanol wasanaethau.

- 16.20.9 Parthed grantiau sy'n ddyledus i'r Cyngor, bydd disgwyl i'r Prif Swyddog priodol sicrhau fod hawliadau grant yn cael eu cyflwyno'r brydlon yn unol ag amserlen y corff sy'n talu'r grant er mwyn sicrhau'r llif arian gorau posibl. Y Pennaeth Cyllid fydd yn gyfrifol am dystio cywirdeb ariannol unrhyw hawliad ac yn y cyswllt yma, bydd disgwyl i'r Prif Swyddogion sicrhau fod ganddynt drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau fod manylion priodol ac amserol pob gwariant perthnasol wedi'i gynnwys ym mhrif Gyfriflyfr Ariannol y Cyngor. Wedi derbyn cais, bydd Prif Swyddogion yn ardystio i'r Pennaeth Cyllid fod y gwariant perthnasol wedi'i gynnwys yn y cyfriflyfr a'i fod yn cyd-fynd â thelerau a phwrpas y dyfarniad grant gwreiddiol.
- 16.20.10 Ni ellir diddymu dyled a gydnabyddwyd i'r Cyngor heblaw trwy ei thalu, trwy roddi nodyn credyd swyddogol, neu fel a ddarperir yn rheoliad ariannol 16.20.13. Ni dderbynnir sieciau ôl-ddyddiedig na sieciau trydydd parti fel tâl am ddyled. Rhaid dweud ar unwaith wrth y Pennaeth Cyllid am unrhyw adnau o arian parod dros £10,000, neu gyfres o adneuron arian parod gan yr un talwr ble mae'r cyfanswm dros £10,000 a bydd yntau yn gwneud y trefniadau angenrheidiol yn unol â Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2003.
- 16.20.11 Rhaid i'r Pennaeth Gofal Cwsmer neu Brif Swyddog priodol arall roddi gwybod i'r Pennaeth Cyllid cyn gynted ag y bo modd am bob arian sy'n ddyledus i'r Cyngor dan gontractau, prydlesau, cytundebau tenantiaeth, trefniadau gwerthu eiddo ac unrhyw gytundebau eraill lle derbynia'r Cyngor arian. Dylid hysbysu'r Pennaeth Cyllid o flaen llaw am unrhyw symiau a fo'n daladwy yn uniongyrchol i gyfrifon banc y Cyngor gan drydydd parti.
- 16.20.12 Bydd pob Prif Swyddog yn cynnal adolygiad llawn o'r holl ffioedd, taliadau, prisiau, a.y.b., a godir gan yr adran, yn unol â Pholisi Ffioedd a Phrisiau'r Cyngor. Bydd ffioedd, prisiau a thaliadau yn cael eu gosod gan y Prif Swyddog ar gyfer y flwyddyn ddiilynol mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid, y Swyddog Monitro a'r Aelod Cabinet, ac yn unol â'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.
- 16.20.13 Ni ellir dileu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor heblaw :
- (a) gydag awdurdod y Pennaeth Cyllid yn achos dyledion unigol sydd â chyfanswm hyd at £5,000, ac yn achos dyledion lle bo'r dyledwr wedi ei wneud yn fethdalwr, neu fod cwmni cyfyngedig wedi ei ddiddymu, trwy ddyfarniad llys;
 - (b) gydag awdurdod Pennaeth Cyllid a'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn achos dyledion heblaw'r rhai hynny y cyfeirir atynt yn (a).

- 16.20.14 Gall y Pennaeth Cyllid ddatgan, yn gyffredinol neu trwy fanylu, na chaniateir cyflenwir nwyddau neu wasanaethau penodol ar delerau credyd, neu y bydd iddynt gael eu cyflenwi ar ôl derbyn tâl ymlaen llaw neu dâl ar y pryd, yn unig.

Archebu a Thalau am waith, nwyddau a gwasanaethau

PWRPAS:

Dylid ymarfer gonestrwydd diamheuol wrth wario arian cyhoeddus. Mae cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau i sicrhau gwerth gorau yn rhannol drwy fod yn ddarbodus ac effeithlon. Dylid darllen y rheolau hyn ar y cyd â Rheolau Sefydlog y Cyngor parthed Contractau.

Archebu

- 16.20.15 Rhaid i bob gwasanaeth anfon archebion ar ffurf a gymeradwyir gan y Pennaeth Cyllid am bob gwaith, nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ac eithrio gwaanaethau proffesiynol, cyflenwadau cyhoeddus, rhent, trethi ac ad-daliadau arian imprest. Rhaid i'r Prif Swyddog neu uwch-swyddog arall a gafodd yr awdurdod ganddo, lofnodi'r cyfryw archebion, a rhaid i'r swyddog hwnnw fodloni ei hun pan anfonir yr archeb fod y gwariant wedi ei awdurdodi ac y gellir ei dalu o'r amcangyfrifon a gymeradwywyd.
- 16.20.16 Pan ddefnyddir dulliau archebu electronig rhaid i'r Prif Swyddog sicrhau fod y rheolaethau priodol mewn lle a bod y Pennaeth Cyllid wedi cymeradwyo defnydd o'r fath dulliau.
- 16.20.17 Pan archebir gwaith, nwyddau neu wasanaethau yn llafar oherwydd brys, rhaid anfon archeb swyddogol ysgrifenedig i gadarnhau hynny yr un diwrnod neu'r diwrnod gwaith canlynol. Cytunir gyda'r Pennaeth Cyllid deilyddion pa swyddi a awdurdodir i lofnodi archebion ar ran y Prif Swyddog a gyrrir eu henwau i'r Pennaeth Cyllid ynghyd ag enghreifftiau ysgrifenedig o'u llofnodion byr a hir a rhaid diwygio'r manylion hyn pan fydd deilyddion y swyddi yn newid.
- 16.20.18 Rhaid i bob archeb gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r Cyngor ynglŷn â phryniant canolog a safoni cyflenwadau defnyddiau.
- 16.20.19 Rhaid darparu copi o bob archeb i'r Pennaeth Cyllid, os gofynnir.
- 16.20.20 Lle amcangyfrifir y bydd gwerth yr archeb yn fwy na £5,000, ac nad archebir oddi wrth gyflenwyr pryniant canolog, dylid cael tri dyfynbris lle bynnag bo'n bosibl. Bydd pob archeb perthnasol o unrhyw werth neu faint yn ddarostyngedig i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau sydd yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.
- 16.20.21 Bydd pob Prif Swyddog mewn perthynas â'r gwaith, nwyddau a gwasanaethau a brynir yn rheolaidd, ar adegau rheolaidd o ddim mwy na deuddeg mis, yn profi prisiau trwy gael o leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau, ar yr amod na fydd hyn yn ofynnol lle mae gwerth pryniant blynyddol unrhyw waith,

nwydd neu wasanaeth yn llai na £5,000.

Talu

- 16.20.22 Y Pennaeth Cyllid fydd yn wneud yr holl daliadau o gyfrifon y Cyngor, ac eithrio taliadau o'r cyfrifon imprest a bydd hefyd yn rhoi pa gyfarwyddiadau sy'n angenrheidiol yn ei dyb ef yn y cyswllt hwn. Heblaw fel y darperir yn 16.20.23 isod, rhaid i'r Prif Swyddog priodol neu uwch swyddog arall a gafodd ei awdurdodi'n benodol ganddo, ardystio pob cyfrif ar gyfer ei dalu gan dystio fod y cyfrif yn wir daladwy gan y Cyngor, a rhaid i'r ardystiad fod ar ffurf a gymeradwyir gan y Pennaeth Cyllid.
- 16.20.23 Pan ddefnyddir dulliau archebu electroneg rhaid i'r Prif Swyddog sicrhau fod y rheolaethau priodol mewn lle a bod y Pennaeth Cyllid wedi cymeradwyo defnydd o'r fath dulliau.
- 16.20.24 Rhaid i bod Prif Swyddog anfon enwau'r swyddogion sydd ag awdurdod i ardystio'r cyfryw gyfrifon at y Pennaeth Cyllid ynghyd ag enghreifftiau ysgrifenedig o'u llofnodion byr a hir a rhaid diwygio'r rhain os digwydd unrhyw newid.
- 16.20.25 Golyga ardystio cyfrif –
- (a) fod y nwyddau wedi eu derbyn, eu harchwilio a'u cymeradwyo fel y rhai a archebwyd, a'u bod yn foddhaol, a bod y prisiau yn unol â'r contract neu'r archeb; a bod y copïau cyfatebol o'r archebion swyddogol wedi eu nodi i ddangos fod y nwyddau wedi cael eu derbyn a bod y cyfrif wedi ei basio i'w dalu;
 - (b) fod y gwaith a roddwyd neu'r gwasanaeth a wnaethpwyd wedi ei gyflawni'n foddhaol, a lle bo hynny'n berthnasol, fod y defnyddiau a ddefnyddiwyd o'r safon ofynnol, a bod y prisiau'n gywir;
 - (c) fod y cyfrif yn rhifyddol gywir (oni bai fod yna drefniant mai'r Pennaeth Cyllid sydd yn gyfrifol mewn unrhyw achos arbennig);
 - (ch) fod y cofnod priodol wedi'i wneud yn y rhestrau eiddo neu gofnodion stoc, fel y bo'r galw;
 - (d) na phasiwyd y cyfrif i'w dalu o'r blaen, a bod y Cyngor yn gyfrifol am ei dalu.
- 16.20.26 Bydd y Pennaeth Cyllid yn dibynnu ar ardystiad o'r fath i olygu fod yr ardystiwr yn gwarantu fod y taliad yn cwrdd â'r amodau uchod ac y caiff felly dalu'r swm dan sylw.
- 16.20.27 Gall y Pennaeth Cyllid drefnu i dderbyn ardystiad ar gyfer swp o gyfrifon gan wasanaethau gwario, yn amodol ar y canlynol :-
- (a) Rhaid i bob Prif Swyddog anfon enwau'r swyddogion sydd ag awdurdod i ardystio'r fath swp at y Pennaeth Cyllid, ynghyd ag enghreifftiau ysgrifenedig o'u llofnodion byr a hir, a rhaid diwygio'r

rhain os digwydd unrhyw newid, a hynny ar wahân i'r rhestr o swyddogion a awdurdodir i ardystio cyfrifon unigol, a bydd y Pennaeth Cyllid yn cadw rhestrau ar wahân o'r fath bersonau.

- (b) Golyga'r ardystiad swp fod pob un cyfrif unigol yn y swp wedi'i ardystio yn unol â 16.20.25 uchod, ac yr ardystir bod pob taliad yn y swp yn gywir.
- (c) Ar gyfer pob ardystiad swp ceir systemau digonol o reolaeth fewnol a chadw cofnodion a fydd yn caniatáu olrhain achosion unigol o awdurdodi, wrth fodd y Pennaeth Cyllid.

- 16.20.28 Yn amodol yn unig ar amodau contractau neu gytundebau eraill, rhaid cyflwyno cyfrifon i'w talu at y Pennaeth Cyllid ar adegau a benderfynir ganddo ef. Rhaid i'r gwasanaethau sy'n gwario nodi ar bob cyfrif, naill ai trwy ddefnyddio côd a baratowyd gan y Pennaeth Cyllid, neu drwy dull arall, o ba bennawd gwariant y dylid talu'r cyfrif.
- 16.20.29 Ni ddylid diwygio unrhyw anfoneb T.A.W. Dylid dychwelyd unrhyw anfoneb T.A.W. anghywir i'r cyflenwyr i'w cywiro. Os newidir unrhyw gyfrif nad yw'n gyfrif T.A.W., yna rhaid gwneud hynny mewn inc a rhaid i'r swyddog sy'n gwneud y newid ei lofnodi, gan roi rhesymau'n fyr lle na bo hynny'n amlwg.
- 16.20.30 Rhaid i bob Prif Swyddog hysbysu y Pennaeth Cyllid mewn ffurf sy'n ofynnol ganddo mor fuan ag sydd modd, a heb fod yn hwyrach na dyddiad ym mhob blwyddyn a roddwyd iddo, am bob gwariant dyledus am y flwyddyn ariannol flaenorol.
- 16.20.31 Bydd gan y Pennaeth Cyllid hawl i wneud pob taliad y profwyd ei ddilysrwydd, sy'n intra vires ac sy'n cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.
- 16.20.32 Bydd pob Prif Swyddog yn sicrhau y cydymffurfir gydag unrhyw fath o gyfarwyddiadau a gyhoeddir o dro i dro gan y Pennaeth Cyllid mewn perthynas â thaliadau sy'n dod o dan amodau Cynllun Tynnu Treth Diwydiant Adeiladu Cyllid y Wlad.

Cardiau Credyd a Chardiau Talu

- 16.20.33 Ni chaiff unrhyw gerdyn credyd neu gerdyn talu o unrhyw fath at ddibenion y Cyngor ei gadw na'i ddefnyddio gan unrhyw swyddog oni chytunid hynny ymlaen llaw gyda'r Pennaeth Cyllid ar ôl derbyn cais gan y Prif Swyddog priodol. Lle caniateir prynu gyda cherdyn credyd neu gerdyn talu, rhaid i'r swyddog sy'n defnyddio'r cyfleuster hwnnw ddarparu dogfennau digonol i gefnogi pob pryniant yn cynnwys anfoneb/derbynneb T.A.W. yn daladwy. Ni chaniateir unrhyw brynu preifat trwy ddefnyddio cerdyn credyd neu gerdyn talu o'r fath.

Taliadau i Weithwyr ac Aelodau

PWRPAS

Mae costau staff yn cynrychioli'r eitem gwariant mwyaf yng ngwasanaethau'r awdurdod. Mae'n bwysig felly fod y taliadau yn gywir, yn amserol ac wedi'u talu lle bo taliad yn daladwy am wasanaethau i'r awdurdod a'u bod yn cyd-fynd ag amodau gwaith yr unigolyn. Yn ogystal mae'n bwysig fod pob taliad wedi'i gofnodi a'i gyfrifo'n gywir a chyflawn a bod lwfansau aelodau wedi'i hawdurdodi yn unol â'r cynllun a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn.

- 16.20.34 Telir yr holl gyflogau, pensiynau, iawndal a thaliadau eraill i weithwyr neu bensiynwyr y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid neu yn ôl trefniadau a gymeradwywyd ac a reolir ganddo ef. Bydd y Pennaeth Cyllid yn gweithredu pob cytundeb telerau gwaith a gymeradwywyd yn genedlaethol pan y'i derbynnir.
- 16.20.35 Rhaid penodi pob gweithiwr yn unol â rheolau'r cyngor ac yn unol â'r sefydliadau, graddau a graddfeydd cyflog cydnabyddedig.
- 16.20.36 Rhaid i'r holl gofnodion amser a dogfennau tâl eraill fod ar ffurf a osodwyd neu a gymeradwywyd gan y Pennaeth Cyllid, a rhaid eu hardystio mewn llawysgrifen gan neu ar ran y Prif Swyddog priodol. Rhaid i bob Prif Swyddog anfon at y Pennaeth Cyllid enwau'r swyddogion a awdurdodir i arwyddo'r fath gofnodion ynghyd ag enghraifft o'u llofnodion hwy, a rhaid diwygio'r rhain os digwydd unrhyw newid.
- 16.20.37 Caiff taliadau am lwfansau teithio neu dreuliau eraill i aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig o'r Cyngor neu ei bwyllgorau sydd â hawl lwfansau teithio neu lwfansau eraill neu hardystio gan y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol neu swyddog arall a ddynodwyd ganddo cyn cael eu talu gan y Pennaeth Cyllid.
- 16.20.38 Bydd pob hawliad gan swyddogion am dalu lwfans cynhaliaeth, costau teithio a chostau ychwanegol mewn ffurf ac yn unol ag amserlen a gymeradwyir gan y Pennaeth Cyllid ar gyfer gwahanol gategoriâu o swyddogion; caiff pob hawliad ei ardystio i'w dalu gan y Prif Swyddog perthnasol, ei ddirprwy neu swyddog arall a awdurdodwyd yn benodol ganddo i ardystio ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cyn y prosesir y fath ffurflenni hawlio. Bydd pob Prif Swyddog yn sicrhau bod gwahanol swyddogion yn cyflawni'r dyletswyddau o osod hawliau fesul swp, rhoi'r hawliadau i mewn yn y system deithio a chynhaliaeth, ac awdurdodi trosglwyddo sypiau o hawliadau i'r system cyflogau ar gyfer eu talu.
- 16.20.39 Bydd yr ardystiad gan y Prif Swyddog neu ar ei ran yn golygu fod y swyddog sy'n ardystio yn fodlon fod y teithiau wedi eu hawdurdodi, fod y treuliau yn gywir ac yn angenrheidiol, a bod y Cyngor i dalu'r lwfansau.

16.20.40 Bydd gan y Pennaeth Cyllid yr hawl i wneud pob taliad y profwyd ei ddilysrwydd, sy'n intra vires ac sy'n cydymffurfio â Rheolau Sefydlog a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

16.21 **TRETHIANT**

PWRPAS:

Mae gan Gyngor Gwynedd fel pob corff arall gyfrifoldeb dros sicrhau fod trefn ar ei faterion trethiant.

16.21.1 Bydd y Pennaeth Cyllid yn rhoi cyngor i'r Prif Swyddogion yng ngoleuni yr arweiniad a gafwyd gan gyrff priodol a'r ddeddfwriaeth berthnasol, ar yr holl faterion treth sy'n cael effaith ar y Cyngor.

16.21.2 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid gadw cofnodion Treth y Cyngor, gan wneud pob taliad treth a derbyn credydau treth a chyflwyno datganiadau treth incwm erbyn y dyddiad i'w talu fel y bo'n briodol.

16.21.3 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid:

- (a) Roi cyfrif Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am yr holl dreth a dynnwyd o daliadau i weithwyr o dan drefniadau Talu Wrth Ennill.
- (b) Gwblhau ffurflen fisol yn dangos mewnbynnau ac allbynnau T.A.W. i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi.
- (c) Cyfrifoldeb y Pennaeth Cyllid fydd rhoi cyfrif i'r asiantaeth briodol am bob math arall o drethi sydd yn daladwy i, neu gan y Cyngor a rhoi i'r cyfryw asiantaethau unrhyw wybodaeth arall y byddai'n ddilys iddynt ei angen.
- (ch) Roi manylion i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynglŷn â'r cynllun tynnu treth diwydiant adeiladu.
- (d) Roi arweiniad diweddaraf i Brif Swyddogion parthed eu cyfrifoldebau mewn perthynas â materion treth ac i weithwyr unigol y Cyngor ar gwestiynau treth.

16.21.4 Rhaid i'r Prif Swyddogion gadw cofnodion priodol a rhoi manylion ar gais y Pennaeth Cyllid er mwyn bodloni rheoliadau treth.

16.21.5 Rhaid i Brif Swyddogion:

- (a) Sicrhau na fydd unrhyw bryniant trethadwy dan ddeddfwriaeth T.A.W, os yw pris y pryniant hwnnw yn cynnwys elfen o D.A.W. ai peidio, yn cael ei dalu amdano nes bo'r Pennaeth Cyllid wedi derbyn anfoneb sy'n cydymffurfio â rheoliadau T.A.W. neu gadarnhad ar ddu a gwyn y rhyddheir derbynneb T.A.W. ddilys wrth dalu.
- (b) Sicrhau bod atebolrwydd T.A.W. cywir ynghlwm wrth pob incwm dyledus a bod pob T.A.W. y gellir ei adennill ar bryniadau yn

cydymffurfio gyda rheoliadau Cyllid aThollau Ei mawrhydi.

- (c) Lle bo gwaith adeiladu a chynnal a chadw yn mynd rhagddo, sicrhau bod y contractwr yn cwrdd â gofynion angenrheidiol tynnu treth diwydiant adeiladu.
- (ch) Sicrhau bod enw pob un sy'n gweithio i'r Cyngor wedi'i ychwanegu at restr cyflogau'r Cyngor ac y tynnir treth o unrhyw daliadau, heblaw lle bo'r personau hynny yn wirioneddol hunangyflogedig neu wedi eu cyflogi gan asiantaeth staff gydnabyddedig.

16.22 CRONFEYDD ANSWYDDOGOL

- 16.22.1 Lle mae Swyddog y Cyngor, yn rhinwedd ei swydd, yn gyfrifol am arian neu nwyddau sydd yn eiddo Cronfa sy'n gysylltiedig ag un o sefydliadau'r Cyngor, ac amcan y gronfa yn cyd-fynd â'r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor:
- (a) Rhaid i'r Swyddog gadw'r holl arian neu nwyddau sy'n eiddo'r gronfa answyddogol ar wahân i rai'r Cyngor.
 - (b) Rhaid cadw cyfrifon iawn, a'u cadw ar wahân i rai'r Cyngor.
 - (c) Rhaid i'r corff sy'n rheoli'r gronfa benodi person cymwys yn archwiliwr, i archwilio gweithgareddau'r gronfa yn flynyddol, ac i adrodd i'r corff sy'n rheoli'r gronfa neu i'r Llywodraethwyr yn achos ysgolion neu golegau.
 - (ch) Rhaid i'r adroddiadau blynyddol hyn fod ar gael i'r Archwilwyr Mewnol eu harchwilio os gofynnant amdanynt.
- 16.22.2 Nid yw'r Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb o fath yn y byd, waeth pa fodd y digwyddodd, os collir unrhyw arian o gronfeydd answyddogol, ac nid oes gan neb hawl i ymrwymo'r Cyngor i dderbyn cyfrifoldeb o'r fath am y cyfryw gronfeydd.
- 16.22.3 Ni fydd cytundeb y Cyngor i dynnu cyfraniadau i wahanol gronfeydd gwirfoddol ac eraill allan o daliadau cyflog a phensiynau yn unol â chyfarwyddiadau a roddwyd i'r Cyngor, na chytundeb i dalu'r cyfryw gyfraniadau yn llawn i'r cronfeydd priodol ar adegau y cytunwyd arnynt, yn gwneud y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw golled.
- 16.22.4 Ni thelir arian sydd yn ddyledus i'r Cyngor i unrhyw gronfa answyddogol, boed hynny dros dro neu fel arall. Bydd gan y Pennaeth Cyllid yr awdurdod i roi cyfarwyddiadau, naill ai'n gyffredinol neu fel arall, yn y cyswllt hwn.

TREFNIADAU ALLANOL

16.23 PARTNERIAETHAU

PWRPAS:

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio'n fwyfwy mewn partneriaeth gyda chyrff eraill, asiantaethau cyhoeddus, cwmnïau preifat, grwpiau cymuned a chyrff gwirfoddol. Mae'n rhaid cael trefn ariannol a llywodraethol eglur a thryloyw ar gyfer yr agweddau hyn o waith y Cyngor.

- 16.23.1 Rhaid i'r Cabinet gymeradwyo dirprwyaeth, gan gynnwys fframweithiau a chytundebau ar gyfer partneriaethau a mentrau ar y cyd. Y Cabinet yw'r canolbwynt ar gyfer creu partneriaethau a mentrau ar y cyd gyda chyrff lleol eraill yn y sector gyhoeddus, breifat, wirfoddol a chymunedol, er mwyn ateb anghenion lleol.
- 16.23.2 Caiff y Cabinet ddirprwyo swyddogaethau - gan gynnwys y rheini sydd yn ymwneud â phartneriaethau - i swyddogion. Gwelir manylion y swyddogaethau yng Nghynllun Dirprwyo'r Cyngor sydd yn rhan o gyfansoddiad y Cyngor. Lle bo swyddogaethau wedi eu dirprwyo, ers y Cabinet yn gyfrifol drostynt i'r Cyngor.
- 16.23.3 Rhaid i gynrychiolydd y Cyngor ar unrhyw bartneriaeth neu fenter ar y cyd hybu a chynnal yr un safonau uchel o ymddygiad a ddefnyddir drwy'r Cyngor.
- 16.23.4 Wrth ddechrau cytundeb partneriaeth, rhaid i'r Cabinet ystyried y drefn lywodraethol gorfforaethol yn gyffredinol a materion cyfreithiol, a sicrhau bod y risgiau wedi'u gwerthuso'n llawn cyn y llunnir cytundebau gyda chyrff allanol.
- 16.23.5 Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau cyfrifyddu sydd i'w mabwysiadu o ran partneriaethau a mentrau ar y cyd yn foddhaol.

16.24 GRANTIAU AC ARIANNU ALLANOL ARALL

PWRPAS:

Mae ariannu allanol, yn aml ar ffurf grantiau penodol, yn cynnig ffynhonnell incwm bwysig iawn, ond mae'n rhaid ystyried yr amodau yn ofalus er mwyn sicrhau y byddent yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol ac amcanion penodol y Cyngor.

- 16.24.1 Rhaid i'r Pennaeth Cyllid sicrhau bod pob ffynhonnell gyllid gan gyrff allanol wedi'i dderbyn a'i gofnodi'n gywir yng nghyfrifon y Cyngor a bod unrhyw ofynion archwilio wedi'u hateb.
- 16.24.2 Mae'n rhaid i Brif Swyddogion sicrhau nad yw unrhyw brosiect sydd i'w ariannu trwy gyllid allanol yn dechrau hyd nes y cafwyd cymeradwyaeth briodol a bod y ffynhonnell cyllid allanol wedi'i chadarnhau.

16.24.3 Rhaid i Brif Swyddogion:

- (a) Sicrhau cydymffurfiaeth gydag amodau allweddol y gronfa ariannol ac unrhyw ofynion statudol, a bod cyfrifoldebau'r corff atebol, boed hynny yn Gyngor Gwynedd neu trydydd parti, wedi eu deall yn llwyr.
- (b) Weithredu yn unol â Rheol 16.6.8 wrth ymdrin ag oblygiadau cyllidebol y gronfa ariannol bosibl.
- (c) Sicrhau y rhoddir ystyriaeth deg i ofynion ariannu cyfatebol ac y bydd cyllidebau refeniw yn y dyfodol yn adlewyrchu'r gofynion hyn, cyn y gwneid unrhyw gytundebau tymor hir.
- (ch) Sicrhau y gwneid pob cais am arian erbyn y dyddiad penodedig.
- (d) Sicrhau y bydd cynigion wedi eu costio'n iawn ac y cafwyd sêl; bendith y Cabinet cyn cloi unrhyw drafodaethau i weithio ar ran unrhyw trydydd parti.
- (dd) Sicrhau bod trefniadau yswiriant priodol wedi eu gwneud, trwy gyfrwng y Pennaeth Cyllid.
- (e) Sicrhau bod y Cabinet, hyd ag y mae modd iddo, yn ymwybodol o unrhyw risg sylweddol posibl.
- (f) Sicrhau na fydd y cyfryw gontractau yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.
- (ff) Roddi gwybodaeth briodol i'r Pennaeth Cyllid i gynnwys nodyn yn y datganiad cyfrifon, fel y bo angen.

16.24.4. Ni ddylid gwneud unrhyw ragdybiaeth y bydd y Cyngor yn ysgwyddo costau ychwanegol, megis costau diswyddo, sy'n deillio o'r grant neu ariannu allanol arall yn dod i ben. Heblaw mewn achosion eithriadol, disgwylir y bydd y costau hyn yn cael eu hysgwyddo o'r ariannu allanol, neu o gyllideb yr adran berthnasol os nad yw hynny'n bosib. Bydd unrhyw gais am ddefnydd reserfau cyffredinol yn ddarostyngedig i Reolau 16.6.21 a 16.6.22.